




BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

Cyfrifon am y flwyddyn yn
diweddu 31 Mawrth 2023

HC 439

SG/2024/5



Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022–23

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 8 (4) Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 31 Ionawr 2024



© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i Ysgrifennydd Bwrdd CITB, Sand Martin House, Bidern Way, Peterborough, PE2 8TY.

ISBN 978-1-5286-4160-9
E02921409 01/24

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu. Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

- 06** Rhagair y Cadeirydd
- 08** Cyflwyniad y Prif Weithredwr
- 10** **Adran 1:** Trosolwg o CITB
- 12** **Adran 2:** Amgylchedd Gweithredu
- 15** **Adran 3:** Adroddiad Strategol
- Adolygiad o 2022–23: Cyflawniadau
Dangosyddion perfformiad allweddol
Adolygiad ariannol
- 28** **Adran 4:** Strwythur, Rheolaeth a Llywodraethu
- Ymddiriedolwyr
Strwythur
Llywodraethu
Rheoli risg
Cynaliadwyedd
- 52** **Adran 5:** Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu
- Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu, Tim Balcon
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
i Ddau Dŷ'r Senedd
- 60** **Adran 6:** Perfformiad Ariannol
- Datganiadau ariannol
Nodiadau i'r cyfrifon
- 84** **Adran 7:** Adroddiad Taliadau
- 90** **Adran 8:** Cynghorwyr Proffesiynol
- 91** Atodiadau
- Atodiad A: Cofrestr buddiannau aelodau'r Bwrdd
Atodiad B: Presenoldeb ar y Bwrdd a'r Pwyllgorau
Atodiad C: Aelodaeth o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
Atodiad D: Sefydliadau Rhagnodedig
Atodiad E: Lleoliad prif swyddfeydd CITB
Atodiad F: Geirfa

Rhagair y Cadeirydd

Roedd 2022-23 yn flwyddyn llawn heriau i gymdeithas, yn yr economi, yn y diwydiant adeiladu ac i CITB.

Erbyn i'r flwyddyn ddod i ben roeddem wedi gwneud newidiadau radical i'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn canolbwyntio'n well ar sut rydym yn cefnogi sgiliau yn y diwydiant.

Roedd newid enfawr mewn cymdeithas ddechrau'r flwyddyn. Ar ôl dwy flynedd o Covid, codwyd yr holl gyfyngiadau yn Lloegr o fis Ebrill 2022 ymlaen ac ychydig yn ddiweddarach yng Nghymru a'r Alban. Ond mae'r effeithiau ar addysg a hyfforddiant yn dal i fod yn bresennol. Collwyd hen batrymau ac arferion ac bu gostyngiad mewn prentisiaethau yn ystod Covid.

Ar ddechrau Covid, ydych chi'n cofio'r drafodaeth am yr effaith ar yr economi? A fyddai cynnyrch domestig gros yn dilyn adferiad siâp V, siâp W neu siâp L? Wel, y newyddion da oedd ei fod, i raddau helaeth, yn adferiad siâp V, yn gostwng yn gyflym iawn ac yn bownsio'n ôl.

Ond eithaf gwastad fu'r llwybr o ran cynnyrch domestig gros yn yr economi ers mis Ebrill 2022, ac mae ergydion newydd wedi niweidio twf, yn enwedig yr argyfwng costau byw.

Mae'r diwydiant adeiladu wedi gwneud yn well na'r economi drwyddi draw. Roeddem yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth pob Llywodraeth i gadw safleoedd ar agor yn ystod Covid oherwydd pwysigrwydd cartrefi, ffyrdd a seilwaith newydd i'n cymunedau a'r gymdeithas ehangach. Roedd adeiladwyr yr un mor brysur gyda gwaith atgyweirio a chynnal a chadw. Felly, erbyn Ebrill 2022, roedd allbwn adeiladu wedi adfer i lefel uwch na'r hyn ydoedd cyn Covid a thyfodd 3.6% arall erbyn mis Mawrth 2023. Ond yn ystod y misoedd diwethaf, gwelwyd ychydig o gwmp yn y sector tai wedi'i wrthbwysio gan berfformiad cryf parhaus yn y sector masnachol a seilwaith.

Felly roedd 2022-23 yn flwyddyn brysur i'r diwydiant adeiladu. Ond doedd pethau ddim crystal o ran hyfforddiant, gan fod cyflogwyr yn dweud wrthym eu bod yn rhy brysur i flaenoriaethu hyfforddiant. Roedd gostyngiad yn y galw am ein cymorth grant ac ar ôl adferiad cadarn yn 2021-22, mae'n debygol y bu gostyngiad yn nifer y prentisiaethau newydd yn y diwydiant yn 2022-23 (rydym yn aros am y ffigurau terfynol). Felly cynyddodd ein cronfeydd wrth gefn yn 2022-23 yn uwch na'r lefel roeddem wedi'i thargedu. →

→ Wynebodd CITB heriau eraill hefyd. Yn Lloegr, arolygwyd ein prentisiaethau adeiladu gan Ofsted. Cadarnhaodd yr arolwg hwn yr hyn roedden ni'n ei wybod ac yn gweithio arno, sef bod angen i ansawdd fod yn well. Rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn prentisiaethau i sicrhau ein bod yn gallu darparu meincnod ar gyfer y sector ac mae eisoes gwelliannau sylweddol, gan gynnwys yn sgoriau hyrwyddwyr net y cyflogwyr. Ond mae mwy i'w wneud yn 2023-24.

Rydym yn ymateb i'r heriau hyn drwy ganolbwyntio'n fwy penodol fyth ar y pethau sylfaenol. Rydym wedi newid ein systemau fel eu bod yn dechrau gyda'r hyn sydd ei angen ar gyflogwyr. Fe wnaethom lansio rhwydweithiau cyflogwyr sy'n penderfynu beth sydd ei angen yn eu hardal leol neu yn eu sector. Rydym wedi sefydlu'r Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (NEST) sy'n ei gwneud yn llai o drafferth i gyflogwyr drefnu prentisiaethau ac yn eu cysylltu â phobl ifanc sydd eisieu cael dyfodol yn y diwydiant.

Ar ddechrau 2023-24, fe wnaethom gyhoeddi ein cynllun busnes newydd sy'n nodi sut byddwn yn datblygu'r dull hwn a sut byddwn yn cynyddu'r buddsoddiad rydym yn ei wneud mewn sgiliau ar ran cyflogwyr o un flwyddyn i'r llall. Rydym yn ymateb i'r her a byddwn yn gwasanaethu cyflogwyr yn y diwydiant hyd eithaf ein gallu.

Rwy'n ddiolchgar i'n holl Ymddiriedolwyr, Cadeiryddion ein Cynghorau Cenedl ac aelodau ein pwyllgor sy'n ymroddedig ac yn angerddol dros wella hyfforddiant mewn adeiladu. Ar ddiwedd 2022-23 fe wnaethom ffarfelio ag Yvonne Kelly, a gyrhaeddodd ddiwedd ei thymor yn y swydd, a chrosawu Mike Green ac Owain Jones fel Ymddiriedolwyr newydd. ●



Rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn prentisiaethau i sicrhau ein bod yn gallu darparu meincnod ar gyfer y sector ”

PETER LAUENER

Cadeirydd CITB



Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Eleni, aethom ati i ymateb i adborth a gawsom o'r Consensws diwethaf ac amgylchiadau unigryw'r gweithlu sy'n ymwneud ag adeiladu.



Eleni, aethom ati i ymateb i adborth a gawsom o'r Consensws diwethaf ac amgylchiadau unigryw'r gweithlu sy'n ymwneud ag adeiladu.

Yn gyntaf, gwnaethom rymuso cyflogwyr drwy roi mwy o lais iddynt ar sgiliau a hyfforddiant, o ran sut y caiff ei gyflwyno a ble. Roeddem yn teimlo bod hwn yn gam pwysig iawn i ffurfio dull mwy cydweithredol o fynd i'r afael â'r heriau sgiliau; Afraid dweud, mae ein holl bwyllgorau a arweinir gan gyflogwyr wedi dangos brwdfrydedd i gefnogi'r newidiadau hyn. Rwy'n hynod ddiolchgar am y cyfraniad y mae cyflogwyr yn ei wneud i'n pwyllgorau. Mae ein pwyllgorau wedi bod yn allweddol wrth osod yr agenda ar gyfer sgiliau a sicrhau bod ein mentrau yn ymateb yn wirioneddol i anghenion cyflogwyr. Mae mentrau newydd, fel y cynllun pilot Rhwydwaith Cyflogwyr, sy'n galluogi cyflogwyr i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio cyllid CITB yn eu hardal, yn ddechrau'r wawr newydd hon. Mae NEST yn enghraifft bellach o CITB yn ei gwneud yn haws cael mynediad at hyfforddiant. Mae'r ddau yn cael eu croesawu'n gynnes gan ein cwsmeriaid.

Pan gyrhaeddais, cefais fy synnu gan amrywiaeth y disgwyliadau a roddwyd ar CITB. Felly, buom yn gweithio'n galed eleni i fframio'r hyn a wnawn yn well, gan sicrhau bod mwy o eglurder a disgwyliadau o ran yr hyn y mae CITB yn ei ddarparu i'w gwsmeriaid. Er

mwyn canolbwyntio ein darpariaeth, fe wnaethom ddatblygu datganiad diben newydd: 'i gefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol.' Dyna sydd ei angen ar y sector, felly dyna beth fyddwn ni'n ei wneud.

Rydym wedi cyflawni rhai pethau gwych gyda'n gilydd eleni. Cefnogwyd 26,200 o brentisiaid, sef dyfodol y gwaith adeiladu, gan bron i £61.5m o gyllid CITB – 14% yn fwy na'r llynedd. Mae ein Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant wedi helpu mwy na 2,100 o fusnesau bach a chanolig – sylfaen ein diwydiant – i uwchsgilio eu gweithlu. Cefnogodd ein cynllun grant cyrsiau byr cynhwysfawr dros 173,000 o ddysgwyr i gwblhau eu cymwysterau. Ac fe welodd Am Adeiladu, cartref gwybodaeth gyrfaedd adeiladu, 1.3 miliwn o ymweliadau â'r safle, sef y nifer uchaf erioed.

Rwyf wrth fy modd gyda'r ymateb anhygoel i'r rhaglen rhagflas gwaith a ragorodd ar ein disgwyliadau, gyda thros 14,000 o ddarpar newydd-ddyfodiaid yn cael cipolwg ymarferol a diddorol ar adeiladu. Rwy'n gobeithio y byddaf yn gweld rhai ohonynt yn cymryd rhan yn SkillBuild y flwyddyn nesaf, sy'n arddangosfa bwysig ar gyfer adeiladu, lle byddwn yn cryfhau ein cefnogaeth i hyrwyddo'r sgiliau a'r dalent yn ein diwydiant. →

→ Rydym yn cydnabod gwerth y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) a fy marn i yw bod angen i ni ddefnyddio ei alluoedd unigryw yn well. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Gynllun Busnes tair blynedd sy'n cynnwys mwy o fuddsoddiad yng nghyfleusterau ac adnoddau CDC. Ein nod yw dod yn esiampl o ansawdd yn y diwydiant adeiladu, gyda nod pellach i ddyblu nifer y dysgwyr sy'n cwblhau hyfforddiant.

Byddwn yn croesawu canfyddiadau adroddiad Ofsted i wella'r hyfforddiant a ddarperir i brentisiaid ond hefyd i bob dysgwr arall. Wedi dweud hynny, rydym wedi cynyddu dysgwyr yn NCC yn 2022-23 14% ac rydym yn disgwyl gweld y duedd hon yn parhau os ydym am fodloni'r galw am sgiliau ar draws y diwydiant. Roeddem yn falch bod Ofsted hefyd wedi nodi nifer o feysydd o arfer da yn NCC ac rydym wedi ymrwymo i ddychwelyd i ddarparu prentisiaeth ragorol ar gyfer y dyfodol. Yn yr Alban, mae gennym raglen debyg o fuddsoddi mewn cyfleusterau a hyfforddiant, lle'r ydym yn rheoli'r contract ar gyfer darpariaeth prentisiaethau, yn bennaf drwy golegau ond hefyd yn NCC.

Mae ein Cynghorau Cenedl wedi bod yn ganolog i sicrhau bod ein hymateb yn cael ei optimeiddio ar gyfer pob cenedl. Rwy'n hynod ddiolchgar i'n holl bartneriaid a rhanddeiliaid ymroddedig ar draws diwydiant sy'n gweithio'n ddiflino gyda ni i fynd i'r afael â'r heriau sgiliau sy'n ein hwynebu. Rwy'n teimlo ein bod wedi cymryd camau breision ymlaen gyda'n gilydd eleni a bydd hyn yn parhau wrth i CITB ddatblygu ei gynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd ein blaenoriaethau'n canolbwyntio ar wella cyflenwad pobl adeiladu, creu llwybrau hyfforddi diffiniedig a darparu cyflenwad hyfforddiant effeithlon.

Gan ymateb i'r heriau sgiliau a wynebir gan fusnesau bach a chanolig a busnesau bach a micro, rydym wedi creu NEST. Treialwyd hyn yn ystod y flwyddyn ac yn 2023-24 rydym ar y trywydd iawn i gefnogi busnesau bach a chanolig a microfusnesau i recriwtio dros 2,000 o brentisiaid a newydd-ddyfodiaid medrus. Cafwyd 650 o gysylltiadau gan gyflogwyr a dechreuodd 377 ohonynt yn 2022-23. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig a microfusnesau.



Er gwaethaf y rhwystrau, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sbarduno newid cadarnhaol."

Yn y cyfamser, bydd y Gronfa Effaith ar Ddiwydiant, sy'n fwy addas ar gyfer cwmnïau mwy, yn mynd â'r mentrau cyflogwyr gorau ar gyfer datblygu sgiliau i'r diwydiant ehangach. Bydd hyn yn ysgogi arloesedd o amgylch heriau allweddol, megis cynhyrchiant a chynhwysiant.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad aruthrol drwy gydol y flwyddyn. Eu hangerdd nhw sy'n gyrru CITB yn ei flaen. Rwy'n falch o'n llwyddiannau ar y cyd, ac yn obeithiol am y dyfodol sydd o'n blaenau.

Mae adeiladu yn cynnig cyflog da i bobl, cyfleoedd gwych iddynt i uwchsgilio a mynd i'r afael â'r materion mawr fel seilwaith, tai a'r newid yn yr hinsawdd. Cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn i gymdeithas. Dewch i hyrwyddo'r neges honno a symud ymlaen i flwyddyn lwyddiannus arall. ●

TIM BALCON

Prif Weithredwr



ADRAN 1

Trosolwg o CITB

Tudalennau 10-11



DIBEN

I gefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, **nawr ac yn y dyfodol.**

EIN SAIL STATUDOL

Ariennir gweithgareddau elusennol CITB yn bennaf gan y Lefi statudol a godir yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982 ac a gadarnhawyd drwy Orchmynion Lefi a basiwyd gan ddau Dŷ'r Senedd. Daeth y Gorchymyn Lefi diweddaraf i rym ar 29 Ebrill 2022.

Ceir manylion llawn am bwerau a chyfrifoldebau CITB, yn ogystal â'r cyfyngiadau sydd arno, yn **Neddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982** a diwygiadau ers hynny. Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (264289) ac yn yr Alban (SC044875).

www.legislation.gov.uk/cy

PWY YDYM NI

CITB yw Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ers 1964, rydym wedi gweithio gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth i arfogi'r sector â'r sgiliau a'r doniau sydd eu hangen i lwyddo. Rhan allweddol o hyn, ddoe a heddiw, yw helpu i gadw gweithwyr yn ddiogel ar y safle. Ers y 1960au, mae gwaith CITB wedi cyfrannu at ostyngiad o 85% mewn marwolaethau ar safleoedd adeiladu.

Rydym yn helpu cyflogwyr i ddenu mwy o bobl i ymuno â'r sector, ac iddyn nhw gael gafael ar hyfforddiant achrededig o ansawdd uchel pryd a lle y mae ei angen. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant arbenigol yn ein Coleg Adeiladu Cenedlaethol.

Rydym yn darparu cymorth ymarferol i gyflogwyr drwy amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau. Rydym yn chwarae rhan strategol yn y sector adeiladu, gan nodi anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol, a chanfod sut gellir eu diwallu. Lle nad yw anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cefnogi, rydym yn comisiynu prosiectau peilot arloesol, sy'n cael eu cyflwyno gan gyflogwyr, y gellir eu ehangu os ydynt yn llwyddiannus. Rydym yn defnyddio ein sefyllfa unigryw i wrando ar gyflogwyr a dylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth er mwyn iddynt gael y gefnogaeth iawn.

Mae ein gwaith yn helpu gweithleoedd i fod yn fwy diogel ac yn fwy cynhyrchiol. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i greu a chynnal amgylchedd adeiledig cynaliadwy o'r radd flaenaf sy'n fuddiol i bob un ohonom.

EIN STATWS ELUSENNOL

Corff cyhoeddus anadrannol yw CITB ac mae wedi bod yn elusen gofrestredig ers 1972. Mae'r Bwrdd yn ystyried canllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus a Deddf Elusennau 2011 wrth gynllunio gweithgareddau i gyflawni ei nodau. ●

ADRAN 2

Amgylchedd Gweithredu

Tudalennau 12-14

Fe wnaeth y diwydiant adeiladu barhau i ddangos lefel uchel o wytnwch drwy gydol y flwyddyn, o ran ei adferiad a'i dwf ar ôl y pandemig.

Yn ystod chwarter cyntaf 2022 fe ddychwelodd allbwn i'w lefel cyn y pandemig (Ch4 2019), gan berfformio'n well nag economi'r DU yn ystod y flwyddyn gyda thwf o 6.2% yn ei allbwn o'i gymharu â thwf o 4.1% mewn Cynnyrch Domestig Gros (GDP)¹. Fodd bynnag, arafodd gweithgarwch adeiladu yn ystod ail hanner y flwyddyn. Deilliodd y cyfraniadau negyddol yn bennaf o ostyngiad mewn tai preifat (o ran codi tai newydd a thrwsio a chynnal a chadw), a sbardunwyd gan gyfuniad o chwyddiant uchel a chynydd mewn cyfraddau llog.

I raddau helaeth yn ystod 2022, diflannodd y problemau o ran argaeledd deunyddiau a tharfu ar y gadwyn gyflenwi a oedd wedi effeithio ar y diwydiant yn ystod rhan helaeth o 2021. Fe'u disodlwyd gan lefelau uchel o chwyddiant o ganlyniad i gostau ynni uwch a chynnydd mewn cyflogau a achoswyd gan farchnad lafur eithriadol o gyfyng. Drwy gydol 2022, dangosodd ein hymchwil yn gyson bod tua wyth cyflogwr o bob deg yn dweud bod prisiau uchel deunyddiau, neu gynydd yn eu pris, yn heriol, ac roedd costau llafur uchel a chwyddiant cyflogau yn her i chwech cyflogwr o

bob deg. O ganlyniad, un mater cynyddol a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen i gynhyrchu digon o referniw i fynd i'r afael â chostau cynyddol, a gwaethyngwyd hyn gan daliadau hwyr a gostyngiad yn y galw.

Bu ond y dim i'r economi ehangach ddisgyn i ddirwasgiad ddiwedd 2022 wrth i hyder defnyddwyr ostwng yng nghanol yr argyfwng costau byw a'r ansicrwydd economaidd. Mae'r arafu yn y galw hefyd wedi tynnu rhywfaint o'r pwysau oddi ar y farchnad lafur, ond mae prinder gweithwyr ar draws yr economi wedi dod i'r amlwg fel ffactor amlwg sy'n cyfyngu ar dwf.

Er bod cyflogaeth adeiladu wedi parhau i wella ers ei lefel isaf yn 2021, mae'r gweithlu'n dal tua 8% yn llai na'i lefel cyn y pandemig. Gwrthbwsywyd y cynnydd yn nifer y gweithwyr gan ostyngiad sylweddol yn nifer y gweithwyr hunangyflogedig. Yn wir, mae hunangyflogaeth ym maes adeiladu bellach ar ei lefel isaf ers dros 20 mlynedd. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y gostyngiad yn nifer y gweithwyr hŷn a'r rheini sy'n grefftwyr medrus.

Mae'r diwydiant wedi cael trafferth recriwtio gweithwyr newydd a chyrhaeddodd nifer y swyddi gwag ei lefel uchaf erioed, sef 50,000, ym mis Hydref 2022. Ers hynny, mae'r galw wedi lleihau wrth i'r ansicrwydd economaidd ehangach gynyddu, ond mae nifer y swyddi gwag yn dal i fod yn uwch o lawer na'r cyfartaledd tymor hir.

Cyfyngedig fu'r cyflenwad posibl o weithwyr medrus sydd ar gael, gan fod nifer y bobl ddi-waith a gyflogwyd ddiwethaf yn y maes adeiladu a'r rheini a ddiswyddwyd o swyddi adeiladu yn dal i fod ar y lefelau isaf erioed. Ychydig iawn o lwyddiant a fu hefyd o ran denu'n ôl y rheini a ddaeth o hyd i waith arall mewn sectorau eraill yn ystod y pandemig, neu'r rhai a adawodd y diwydiant oherwydd salwch neu ymdeoliad cynnar.

Dangosodd ymchwil yn 2022 fod dau gyflogwr o bob pump yn teimlo ei bod wedi mynd yn anoddach o lawer i recriwtio staff â'r sgiliau priodol. →

2022 mewn niferoedd

80%

Dywedodd 80% o gyflogwyr fod prisiau deunyddiau uchel, neu'n codi, yn her

60%

Heriwyd 60% o gyflogwyr gan gostau llafur uchel neu chwyddiant cyflog

8%

Gostyngiad o 8% yn y gweithlu o gymharu â lefel cyn-bandemig

40%

Canfu 40% o gyflogwyr ei bod yn anos recriwtio staff â'r sgiliau addas.

¹ Twf o flwyddyn i flwyddyn: CVM SA % Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)



→ Nododd cyflogwyr hefyd fod gostyngiad wedi bod yn argaeledd ymgeiswyr iau (dan 25) a gweithwyr hŷn (dros 55) wrth i ni weld cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn addysg ac wrth i fwy o weithwyr ymddeol. Mae'r gystadleuaeth gyda sectorau eraill ynghyd â marchnad lafur sy'n llai yn gyffredinol, a achoswyd gan lefelau uchel o anweithgarwch, wedi bod yn broblem hefyd.

Y consensws yw bod prinder sgiliau heb eu diwallu wedi arafu twf yn 2022 ac mae'n debygol o rwystro twf yn y dyfodol.

Mae hefyd yn ymddangos bod pwysau costau uwch ar fusnesau wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch hyfforddiant, yn enwedig buddsoddiadau tymor hwy fel prentisiaethau. Dywedodd tua un cyflogwr o bob pump fod costau uwch deunyddiau a chyflogau, yn ogystal â staff sy'n rhy brysur, yn eu hatal rhag buddsoddi'n ddigonol mewn hyfforddiant. Hefyd, mae chwyddiant mewn costau hyfforddi ac ansicrwydd ynghylch faint o waith fydd ar gael yn y dyfodol wedi chwarae rhan o ran lleihau gweithgarwch hyfforddi.

Lle bu cynnydd mewn gweithgarwch hyfforddi neu fod cynlluniau i wneud hynny, roedd hyn yn bennaf oherwydd ei fod yn orfodol, oherwydd bod mwy o weithgarwch busnes a recriwtio, neu fod angen datblygu neu wella sgiliau staff. Mae'n ymddangos bod llai o bwyslais wedi bod ar hyfforddiant mewn llawer o gwmnïau wrth iddynt ganolbwyntio ar glirio'r gwaith a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Gallai'r gostyngiad parhaus yn y galw o ganlyniad i gyfraddau llog uchel ac arafu yn y twf mewn enillion liniaru rhai o'r problemau mwyaf uniongyrchol o ran y cyflenwad llafur, ond bydd y galw'n dychwelyd gan arwain hefyd at yr angen am bobl fedrus. Mae hefyd yn dod yn fwyfwy amlwg y bydd y diwydiant bron yn sicr yn gweithredu gyda gweithlu llai hyd y gellir rhagweld, ac efallai y bydd hynny'n rhywbeth parhaol. O ganlyniad, mae angen i'r diwydiant fynd i'r afael â'i strategaeth ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys denu gweithwyr newydd ac uwchsgilio gweithwyr presennol i fanteisio ar dechnolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio a fydd yn lleihau costau ac yn cynyddu cynhyrchiant.

Ym mis Mawrth 2023, llaciodd y Llywodraeth gyfyngiadau fisa ar gyfer rhai galwedigaethau adeiladu trwy eu hychwanegu at y rhestr galwedigaethau prinder. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws gwneud cais am fisa gweithiwr medrus, gan helpu i fynd i'r afael â rhai o'r prinderau sgiliau mwyaf difrifol.

Dyma rai o'r galwedigaethau:

- Bricwyr a seiri maen
- Towyr; toi gyda llechi a theils
- Seiri coed ac asiedyddion
- Crefftau adeiladu n.e.c.

Mae arolygon 'Dip' Dadansoddiad a Rhagolygon y Diwydiant ar gyfer dangosyddion iechyd y diwydiant yn dangos bod y diwydiant wedi aros yn ei unfan drwy gydol 2022-23, gyda rhywfaint o dwf tua diwedd y flwyddyn, ac mae'r sefyllfa yr un fath o ran prinder sgiliau.

Mae ein cynllun busnes yn 2023-24 yn dangos sut rydym yn symud ymlaen gyda'n tair blaenoriaeth hirdymor, sef ymateb i'r galw am sgiliau, datblygu capasiti a gallu'r ddarpariaeth hyfforddiant a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol.

Mae'r cynllun yn adlewyrchu diben CITB, sef sut byddwn yn "cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol" drwy wneud y canlynol:

- Gwellu'r Biblinell Pobl yn y diwydiant adeiladu
- Creu Llwybrau Hyfforddiant Diffiniedig
- Cyflenwi Hyfforddiant yn Effeithlon

Bydd ein tair blaenoriaeth allweddol yn effeithio ar bob rhan o'r biblinell dalent, o ysbrydoli pobl i ddewis adeiladu fel eu gyrfa, i gadw talent. ●

Mae ein cynllun busnes yn 2023-24 yn dangos sut rydym yn symud ymlaen gyda'n tair blaenoriaeth hirdymor, sef ymateb i'r galw am sgiliau.



ADRAN 3

Adroddiad Strategol

Tudalennau 15–27

Meithrin sgiliau, siapio adeiladu

● Mae CITB yma i gefnogi anghenion sgiliau cyflogwyr adeiladu ledled Prydain. Mae gweithlu medrus yn dibynnu ar gyflenwad hyfforddiant hyblyg, hygyrch ac sydd wedi'i ariannu'n dda. Dyna beth wnaethon ni ei gyflawni.

Fe wnaethom fuddsoddi mwy na £194.5m, ac roedd dros hanner hyn yn gyllid uniongyrchol i gyflogwyr. Mae hyn yn cynnwys grantiau, fel y rheiny ar gyfer prentisiaethau a chyrsgau hyfforddi, gweithgareddau hyfforddi wedi'u hariannu, a darparu hyfforddiant a phrentisiaethau'n uniongyrchol.

Eleni, roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thair her allweddol: ymateb i'r galw am sgiliau, datblygu'r capasiti a'r gallu i ddarparu hyfforddiant, a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol. Bydd yr heriau hyn yn effeithio ar bob rhan o'r biblinell dalent, o ysbrydoli pobl y tu allan i'r diwydiant i ddewis gyrfa yn y maes adeiladu, i gadw talent presennol.

Fe wnaethom godi proffil gyrfaoedd adeiladu drwy fentrau poblogaidd Am Adeiladu a Llysgenhadon STEM. Yn y cyfamser, roedd hybiau Profiad ar y Safle a phrofiadau blasu yn cynnig llwybr amgen i'r maes adeiladu, gan bontio rhwng addysg a gwaith. Mae prentisiaethau wrth galon y gwaith o fynd i'r afael â'r galw am sgiliau, felly fe wnaethom fuddsoddi mewn degau o filoedd o brentisiaid a'u cyflogwyr a'u cefnogi.

Lleihaodd y galw am hyfforddiant wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, wedi'i sbarduno gan bwysau economaidd, felly fe wnaethom ddatblygu cynllun peilot y Rhwydwaith Cyflogwyr a'r Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (NEST) i greu llwybrau newydd i gyflogwyr uwchsgilio eu gweithlu. Fe wnaeth y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) a'r Ganolfan Achrededig Arbenigol Genedlaethol (NSAC) hyfforddi miloedd o ddysgwyr yn uniongyrchol, gan fynd ati'n aml i ddarparu cymwysterau penodol ac arbenigol nad ydynt ar gael yn unman arall.

Mae tudalennau 16 i 22 yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd eleni.

Tair her allweddol:

● YMATEB I'R GALW AM SGILIAU

● DATBLYGU'R CAPASITI A'R GALLU I DDARPARU HYFFORDDIANT

● MYND I'R AFAEL AG ANGHENION SGILIAU YN Y DYFODOL

Fe wnaethom wella ein cefnogaeth i sgiliau annhechnegol, gan gynyddu'r cyllid ar gyfer hyfforddiant arwain a rheoli ar yr un pryd â gosod y sylfeini ar gyfer diwydiant mwy cynaliadwy. Ein system safonau yw'r sail i bopeth, gan roi tawelwch meddwl i gyflogwyr bod yr holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu a'i asesu i safon gydnabyddedig. Mae fframweithiau cymhwysedd yn gam arall i sicrhau bod safonau'n adlewyrchu anghenion sgiliau newydd a newidiol.

Gweithiodd ein rhwydwaith o gynghorwyr yn ddiflino, gan helpu busnesau ledled y wlad i gael gafael ar y cyllid, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth mae CITB yn eu cynnig. Fe wnaethom ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint ac fe dalodd ar ei ganfed, gyda chynnydd enfawr yn nifer y busnesau bach sy'n defnyddio ein Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant ac yn defnyddio ein Cynllun Grantiau.

Fe ddefnyddiom ein sefyllfa unigryw i wrando ar gyflogwyr a dylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth er mwyn iddynt gael y gefnogaeth iawn, e.e. newidiadau a wnaed i restr galwedigaethau prinder gweithwyr medrus. Yn bwysicaf oll, fe wnaethom sicrhau bod y Lefi'n cael ei wario'n dda, gan helpu i ddarparu gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol.

Dangosodd eleni pa mor anhygoel o gadarn yw'r diwydiant adeiladu. Yn wyneb pwysau chwyddiant, parhaodd busnesau i gyflawni gwaith i safon ragorol, gan hyfforddi eu gweithlu ac adeiladu'r byd o'n cwmpas. Ac fe wnaeth CITB eu cefnogi ar bob cam o'r ffordd. ●




Mewn Niferoedd

Ymateb i'r Galw am Sgiliau

858

WEDI EU RECRIWTIO FEL
LLYSGENHADON STEM
AM ADEILADU



1.3m+

YMWELIADAU Â GWEFAN
AM ADEILADU



8,500+

CEISIADAU AM SWYDDI
DRWY WEFAN TALENTVIEW

650

CYFLOGWYR YN CAEL
CYMORTH GAN NEST

7,731

O BOBL WEDI DEFNYDDIO
EIN DEUNYDDIAU TEGWCH,
CYNHWYSIANT A PHARCH



£5.2m

BUDDSODDIAD MEWN
TEITHIO I HYFFORDDI



9,800

SWYDDOGION CYMORTH
CYNTAF IECHYD MEDDWL
WEDI'U HYFFORDDI



Hybiau Profiad ar y Safle

Mae hybiau Profiad ar y Safle yn ceisio chwalu'r rhwystrau i gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. Mae'r hybiau yn denu pobl o gronfeydd talent newydd ac ehangach na fyddai fel arfer yn ystyried adeiladu fel gyrfa.



Mae adeiladu yn rhoi incwm cynaliadwy i mi er mwyn darparu bywyd a dyfodol da i mi a'm teulu."

STEFAN

Wedi mynychu hwb Profiad ar y Safle

"Gyda'r bwch sgiliau cynyddol, mae mentrau fel yr hybiau Profiad ar y Safle yn wych," meddai Karen Heaton-Morris, Cyfarwyddwr yn Read Construction. Drwy eu hwb lleol, fe wnaethon nhw gynnis lleoliad gwaith i Stefan, a oedd yn gorffen dedfryd yng Ngharchar EF Berwyn ac yn ceisio gweddnewid ei fywyd.

"Fe wnes i fynychu'r cwrs a'i weld fel cyfle gwych ar gyfer dyfodol heb droseddu," meddai Stefan, a gafodd groeso cynnes ac a gafodd brofiad a sgiliau gyrfa gwerthfawr. **"Mae adeiladu yn rhoi incwm cynaliadwy i mi er mwyn darparu bywyd a dyfodol da i mi a'm teulu."**

Gall pobl o bob cefndir wneud cais i gymryd rhan yn y rhaglen ddwy wythnos. Gyda phrofiad gwaith yn cael ei ennill ar safleoedd gweithredol, mae cyflogwyr lleol yn gallu recriwtio gweithwyr sy'n barod am y safle adeiladu yn syth i'w swyddi gwag. **"Ymunodd Stefan â'n tîm ar leoliad tymor byr i ddechrau, lle cafodd gyfle i wella ei brofiad ar y safle wrth iddo gael ei ryddhau am y dydd, ac roeddem yn falch iawn o gynnig cyfle gwaith amser llawn iddo. Drwy benodi Stefan, llenwyd swydd wag hirdymor yn y busnes."**



Mewn Niferoedd

Datblygu capasiti a gallu'r ddarpariaeth hyfforddiant adeiladu

2,100

BUSNESAU BACH A
CHANOLIG A GEFNOGIR
GAN EIN CRONFA SGILIAU
A HYFFORDDIANT



26,200

PRENTISIAID A
GEFNOGWYD DRWY EU
HYFFORDDIANT



£61.5m


CYHOEDDWDYD MEWN
GRANTIAU PRENTISIAETHAU

173,000

CYRSIAU HYFFORDDI TYMOR
BYR A DDERBYNIODD
GYMORTH GRANT


£2.5m

WEDI'I ARBED GAN DROS 1,300
O AELODAU, GAN GYFLOGWYR
YN DEFNYDDIO EIN 85 GRŴP
HYFFORDDI I GAEL MYNEDIAD
AT HYFFORDDIANT



10,000+

DYSGWYR SYDD WEDI'U
HYFFORDDI YN Y COLEG ADEILADU
CENEDLAETHOL (NCC)



3,400

DYSGWYR SYDD WEDI CAEL
EU HYFFORDDI DRWY EIN
RHWYDWAITH CYFLOGWYR



Cyllid

O uwchsgilio staff i ddenu recriwtiaid newydd a chynyddu'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig, mae tîm Sanctus wedi cael lluo o fanteision diolch i Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant CITB.



Mae ein staff bob amser yn awyddus i uwchsgilio ac mae CITB yn rhoi'r cyfle i gynnig mwy o hyfforddiant."

ALEX WILLISON
Cyfarwyddwr Contractau

“Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd pawb eisoes wedi cael eu huwchsgilio mewn hyfforddiant peiriannau gan CITB,” meddai Alex Willison, Cyfarwyddwr Contractau.

“Ond mae rhai pobl wedi symud ymlaen yn ddiweddar ac mae wedi caniatáu i ni fuddsoddi mewn pobl newydd sy'n dod i mewn i'r busnes.”

Fel cyflogwyr sydd wedi cofrestru â CITB, maent wedi bod yn ymwybodol o gyllid hyfforddiant CITB ers amser hir – ac maen nhw wedi defnyddio'r pot arian hwn yn aml i uwchsgilio eu tîm. O ran recriwtio, mae hyfforddiant yn rhan fawr o'r apêl. Cymaint felly, fel bod ymgeiswyr yn cael gwybod

am y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael yn ystod cyfweiliadau, ac mae CITB yn cefnogi pob un ohonynt.

“Mae pobl sy'n dechrau eu gyrfaedd eisiau gwybod na fyddan nhw'n aros yn yr unfan. Maent eisiau gwybod y byddant yn cael eu uwchsgilio ac yn gwybod, 'os fydda i byth yn symud ymlaen, byddaf yn gallu mynd â'r sgiliau hynny gyda mi.”

“Rydyn ni gyd eisiau cynyddu'r hyn y gall pobl ei wneud. Wrth symud ymlaen, rydyn ni'n dal i ddefnyddio cyllid CITB. Mae'n ddefnyddiol iawn. Mae ein staff bob amser yn awyddus i uwchsgilio ac mae CITB yn rhoi'r cyfle i gynnig mwy o hyfforddiant!” ●



Mewn Niferoedd

Mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol



14

ATO WEDI CAEL EU CYFLOGI
I GYFLWYNO'R GYFRES
NEWYDD O SAFONAU
HYFFORDDI RHEOLI
AC ARWAIN

282

SAFONAU TYMOR BYR
WEDI CAEL EU HADOLYGU*



105

ADOLYGIADAU SAFONAU
GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL
WEDI'U CWBLHAU



90

SAFONAU HYFFORDDIANT
TYMOR BYR WEDI CAEL EU
TYNNU'N ÔL GAN NAD OES
EU HANGEN MWYACH



2

FFRAMWEITHIAU
CYMHWYSEDD WEDI
CAEL EU CWBLHAU

*Gan gynnwys diweddariadau i safonau diogelwch hanfodol, megis Asbestos, yn ogystal â safonau newydd yn y sector Ôl-ffitio a Thriniaethau Adeiladau Inswleiddio.



Pe na bawn i'n gallu cynnig am wahanol grantiau a chyllid gan CITB ... efallai y byddem wedi cyflogi llai o brentisiaid."

ERIKA SZOMMER
Rheolwr Adnoddau Dynol
a Hyfforddiant

Prentisiaethau

Fel cwmni teuluol sydd wedi masnachu'n llwyddiannus ers 45 mlynedd, roedd yr Hawkins Group yn barod i ehangu. Eleni, diolch i gymorth ariannol gan CITB, mae'r cwmni wedi gallu cyflogi chwe phrentis ac uwchsgilio eu gweithlu.

“Pan wnes i ymuno â'r cwmni, roedd gennym ni gynghorydd CITB yn barod, felly roedd y berthynas â'r busnes wedi'i ffurfio'n barod,” meddai Erika Szommer, Rheolwr Adnoddau Dynol a Hyfforddiant. “Roedd hi'n wych gweld bod rhywun ar gael i gysylltu â nhw i gael cyngor.”

Gan weithio'n agos gyda'u hymgynghorydd CITB, fe wnaethant fanteisio ar gymorth gan Grant Tymor Byr CITB, yn ogystal â'r Grant Presenoldeb Prentisiaethau, ac ychwanegwyd at hyn gyda'r cyllid am ddim sydd ar gael drwy Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant CITB.

“Rydyn ni'n dod yn fwy ystwyth fel tîm. Mae gan fwy o bobl fwy o alluoedd erbyn hyn, felly os oes gennym fwy o safleoedd, er enghraifft, nid oes rhaid i ni aros am yr un person hwnnw sy'n gallu gweithredu lifft siswrn, neu beth bynnag y bo.”

Heb y cyfuniad hwn o gyllid a grantiau, mae Erika yn amau y byddai'r cwmni wedi gallu cyflogi cymaint o brentisiaid eleni. **“Pe na bawn i'n gallu cynnig am wahanol grantiau a chyllid gan CITB ar gyfer y prentisiaethau a'r hyfforddiant ychwanegol rydym wedi'u defnyddio drwy'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant, efallai y byddem wedi cyflogi llai o brentisiaid.”** ●



Dangosir y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'u targedau yn Nhabl 1 (tudalen 25).

Mesur Ilwyddiant ar gyfer y sector adeiladu

Rydym yn adrodd ar ein perfformiad i gefnogi cyflogwyr a'r diwydiant drwy gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol. Cytunodd y Bwrdd ar 12 Dangosydd ar gyfer 2022-23, gan ymdrin â thair her allweddol, sy'n cael eu mesur drwy ymyriadau sydd naill ai'n cael eu darparu gan y diwydiant, gan CITB neu'n genedlaethol i fynd ar drywydd gwelliant parhaus yn ein cefnogaeth i'r sector adeiladu.

Y CANLYNIADAU

Cymysg oedd perfformiad diwedd blwyddyn ar y 12 mesur Cynllun Busnes yn erbyn y tair "Her" a osodwyd ar gyfer 2022-23 yn y cynllun busnes. Mae 50% wedi cyflawni eu targedau, gyda phump allan o chwech yn gorgyflawni. Ni wnaeth y rhai a oedd yn is na'r targed gyrraedd eu hallbynnau cyfaint, ac roedd targedau tri o'r rhai a oedd yn tanberfformio y tu hwnt i'n rheolaeth, i wahanol raddau. Yn ogystal â mesurau Dangosydd Perfformiad Allweddol Cynllun Busnes 2022-23, rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau a mentrau newydd, a nodir rhai ohonynt isod.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a gofnodwyd sy'n ymweld â Am Adeiladu, i dros 1.3m. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd mewn

ymweliadau â thudalennau prentisiaethau a chliciadau am allan i Talentview Construction, sy'n dangos bod newydd-ddyfodiaid posibl a'u dylanwadwyr yn ystyried bod gyrfaedd adeiladu yn ddeniadol.

Rydym wedi rhagori'n sylweddol ar nifer y sesiynau blasu a ddarperir. Mae'r cynnydd hwn yn dangos bod darpar ymgeiswyr yn cael nifer o gyfleoedd i ddatblygu eu diddordeb mewn adeiladu fel gyrfa.

Mae cyrff cyllido'r wlad yn adrodd ar wahanol adegau a thros wahanol gyfnodau (mae Cymru a Lloegr yn dilyn y flwyddyn academaidd, ac mae'r Alban yn adrodd ar sail blwyddyn ariannol). Ar gyfer 2021/22, mae gennym ddata cyflawn ar gyfer pob gwlad ac mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn dangos cynnydd o 4,950 o ddysgwyr.

Ni fydd data dechrau y gwledydd yn 2022/23 ar gael tan Ebrill 2024, felly nid ydym yn gallu adrodd ar gynnydd yn erbyn y targed o 5%, ond bu cynnydd hefyd o 2% yn nifer y prentisiaethau sy'n cael eu →



DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

2/3

→ rheoli gan CITB o'i gymharu â'r llynedd, gyda Lloegr yn cynyddu o 215 yn 2021/22 i 276 yn 2022/23 a'r Alban yn dangos gostyngiad bach o 1551 yn 2021/22 i 1,525 yn 2022/23. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y niferoedd sy'n cychwyn yn dangos bod gan ymgeiswyr fynediad at sgiliau a chyfleoedd tymor hwy a fydd yn gwella eu dealltwriaeth o'r sector adeiladu ac a fydd yn cyfrannu at lenwi bylchau/prinder mewn sgiliau ac yn gwella cyflogadwyedd.

Sefydlwyd Tasglu Prentisiaeth Ymgysylltu newydd yn 2022/23 i weithio gyda busnesau bach a chanolig a darparwyr i symleiddio taith prentisiaethau i ymgeiswyr a chyflogwyr er mwyn cynyddu nifer y prentisiaid i gyfrannu at lenwi bylchau mewn sgiliau. Yn 2022/23 roedd 650 o gysylltiadau Cyflogwyr a dechreuodd 377 ohonynt.


Mae perfformiad y gyfradd Cyflawniad Pob Gwlad yn dangos bod yr Alban wedi cau ar 75.4%, Cymru ar 71%, a Lloegr ar 53.6% (fymryn yn uwch yn erbyn pob maes pwnc). Gan ystyried holl ddata 2021/2022, byddai'n awgrymu bod y gyfradd cyflawni ar draws pob gwlad yn 60.7% sydd ychydig yn is na targed y llywodraeth o 67%. Mae ystadegau gwladol Lloegr ar gyfer 2021-22 yn dangos bod y gyfradd gyflawni gyffredinol, ym mhob maes pwnc ar gyfer prentisiaethau, wedi gostwng i 53.4%, gostyngiad o 4.3 pwynt canran ar y flwyddyn flaenorol. Er eu bod yn gostwng, mae'r cyflawniadau hyn yn dangos bod pobl yn llenwi bylchau/diffyg sgiliau ar draws y diwydiant ac mae rhywfaint o ymchwil yn ein hysbysu bod rhai prentisiaethau'n gadael yn gynnar i ddechrau swydd adeiladu.

Darparwyd dros 4,500 o brofiadau ar y safle i newydd-ddyfodiaid ac mae dros 4,000 yn barod ar gyfer y safle neu wedi dechrau swyddi ac mae hynny'n gynydd o'i gymharu â'r llynedd ond nid yw'n cyrraedd y targed. Lanswyd dau gomisiwn newydd yn 2022/23, sef "Academi'r Alban ar gyfer Cyfleoedd Adeiladu" ar y safle, sef yr hybiau cyntaf yn yr Alban ac "Academi Cyfleoedd Adeiladu Lloegr" sy'n fersiynau newydd o'r hybiau. Mae'r cynnydd hwn yn dangos bod newydd-ddyfodiaid yn symud yn eu blaenau i yrfa yn y diwydiant adeiladu.

Mae rheolau cyllido'r Asiantaeth Cyllido Sgiliau Addysg (ESFA) wedi cyfyngu ar ein gallu i ariannu dysgwyr yn Lloegr ar gyfer hyfforddeiaethau galwedigaethol oherwydd materion cyllido deublyg. Gall CITB eu hariannu'n annibynnol ond nid ar gyfer yr un dysgwr yn yr un flwyddyn academaidd ag ESFA. Dechreuodd carfan fach yng Nghymru, wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru a gyda chefnogaeth gan CITB drwy'r Cynllun Grantiau ar ôl iddynt ei gwblhau, ac fe wnaethom edrych ar raglenni eraill i gefnogi dysgwyr i bontio o addysg bellach i waith, fel y 2,225 a fanteisiodd ar y dosbarth gwaith brics a 79 o sesiynau Datblygiad Personol Parhaus gwaith brics rhithwir ar gyfer darlithwyr, a chynhaliwyd 16 o gyrsiau byr gosod brics, gyda 430 o weithwyr presennol a 1,529 o ymyriadau dysgu addysg bellach, i gyd yn sylweddol uwch na'r targed.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyflogwyr sy'n cael cymorth hyfforddiant CITB, gan ddod â'r flwyddyn i ben yn llawer uwch na'r targed. Mae'r cronfeydd sgiliau a hyfforddiant ar gyfer cyflogwyr micro, bach a chanolig, grantiau ar gyfer cyrsiau byr a phrentisiaethau i gyd wedi denu niferoedd arbennig o uchel. Mae hyn yn dangos bod gweithwyr ym maes adeiladu wedi cymryd camau cadarnhaol ar y cyfan i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Cyfrannodd y cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n cael eu hyfforddi yn y Coleg Adeiladu Cenedlaethol a NSAC, ochr yn ochr â lefelau uchel o ymgysylltu â sgiliau craidd, gyda'n cyfres o gyrsiau lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd a Diogelwch ar y Safle a Mwy, at ragori ryw fymryn ar y disgwyliadau o ran nifer yr unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi. →



DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

3/3

→ Mae gennym chwe Rhwydwaith Cyflogwyr newydd, cynnydd o'r pump gwreiddiol, gan gefnogi 246 o gyflogwyr a 3,435 o ddysgwyr, pob un wedi'i dargedu i ymgysylltu â'r 25% o gyflogwyr sydd wedi ymddieithrio yn eu rhanbarth darparu. Mae Rhwydweithiau Cyflogwyr yn galluogi cyflogwyr i gynyddu eu mynediad at yr hyfforddiant cywir i leihau bylchau o ran sgiliau.

Math newydd o safon yw'r Fframweithiau Cymhwysedd – o'r herwydd, nid oes proses sefydledig ar gyfer datblygu. Achosodd hyn i weithgarwch symud ymlaen yn arafach na'r disgwyl. Cytunwyd ar ddau fframwaith, ac rydym yn gweithio'n agos gyda grwpiau cyflogwyr i lywio'r gwaith o ddatblygu rhai eraill.

Adolygwyd cyfanswm o 279 o safonau hyfforddi Tymor Byr yn 2022-23, gan gynnwys diweddarau safonau diogelwch critigol, fel Asbestos, yn ogystal â safonau newydd yn y sector Ôl-osod a Thriniaethau Insiwleiddio Adeiladau. Mae Safonau Hyfforddiant Tymor Byr 90 wedi cael eu tynnu'n ôl

gan nad oes eu hangen mwyach. Erbyn hyn, mae 14 o Sefydliadau Hyfforddi Cymeradwy wedi cael eu cynnwys i gyflwyno'r gyfres newydd o Safonau Hyfforddi Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac mae'r holl fodiwlau ar gael i'w cyflwyno. Adolygwyd 105 o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer wyth o alwedigaethau, a diweddarwyd unrhyw strwythurau Cymwysterau Galwedigaethol hefyd.

Cafodd y cynllun gweithredu sero net ei gyhoeddi ym mis Medi 2022. Roedd yn gosod y sylfeini ar gyfer sut byddwn yn cefnogi'r diwydiant adeiladu i newid i ddyfodol sero net, gan sicrhau bod cyflogwyr a'r gweithlu wedi'u paratoi'n dda. ●

Darllenwch ein Cynllun Gweithredu Sero Net llawn ar-lein:

www.citb.co.uk 🔍 sero net

TABL 1: CRYNODEB O DDANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL Y BWRDD - CANLYNIADAU A STATWS

HER	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	TARGED	PERFFORMIAD
Ymateb i'r galw am sgiliau	Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld ag Am Adeiladu	10%	61%
	Nifer y cyfleoedd blasu sydd ar gael	4,600	14,166
	Prentisiaethau'n dechrau (DU gyfan, pob darparwr)	30,450	35,420
	Cynnydd yn nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd	DU 5%	CITB 2%
	Cyfradd cwblhau prentisiaethau (DU gyfan, pob darparwr)	67%	Yr Alban 75.4% Cymru 71% Lloegr 53.6%
	Profiadau ar y safle a ddarparwyd	6,750	4,612
	Profiad ar y safle – pobl yn barod ar gyfer y safle neu'n dechrau swydd newydd	6,450	4,053
	Dysgwyr sy'n dechrau Hyfforddeiaethau Galwedigaethol	200	18
Datblygu capasiti a gallu'r ddarpariaeth hyfforddiant	Cynnydd yn nifer y cyflogwyr sy'n cael cymorth hyfforddiant CITB	3%	15%
	Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cael eu hyfforddi neu eu cefnogi	3%	7%
Mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol	Fframweithiau Cymhwyseddau a gytunwyd arnynt gyda'r diwydiant	5	2
	Cytunwyd ar gynllun gweithredu sero-net	Medi-22	Medi-22

Rhagweld dyfodol mwy disglair drwy amodau economaidd stormus

TROSOLWG

Er gwaethaf yr ansicrwydd economaidd, mae'r diwydiant adeiladu wedi bod yn llwyddiannus o'i gymharu â'r economi ehangach. Mae incwm y Lefi wedi cynyddu o £108.3m i £170.6m ac mae'r gwaith o gasglu'r lefi wedi mynd rhagddo'n gadarn. Mae'r incwm ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar Ffurflen Lefi 2021 sydd ei hun yn seiliedig ar weithgarwch economaidd yn ystod 2020 a 2021, pan oedd y pandemig ar ei "anterth". Effeithiwyd ar y ddwy flynedd gan y pandemig gyda'r flwyddyn flaenorol yn asesiad llai a'r flwyddyn gyfredol yn seiliedig ar weithgaredd economaidd yn ystod 2020 a 2021, pan oedd y pandemig ar ei "anterth". Oherwydd yr amodau economaidd ehangach, roedd y galw am hyfforddiant yn is na'r disgwyl ac mae wedi golygu ein bod wedi diweddu'r flwyddyn gyda chronfeydd wrth gefn uwch na'r disgwyl, ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn gyda'n cynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24 a thu hwnt.

CANLYNIAD AR GYFER Y CYFNOD

Yn 2022-23, mae CITB wedi ychwanegu £8.4m at gronfeydd wrth gefn (gostyngiad o £26.5m yn y cronfeydd wrth gefn yn 2021-22), a oedd £28.4m yn uwch na'r Cynllun Busnes a gyhoeddwyd lle roeddem wedi rhagweld diffyg o £20m. Y rheswm dros yr amrywiad oedd diffyg galw parhaus am grantiau a chyllid hyfforddi (£29m) wrth i gyflogwyr gyfyngu ar hyfforddiant nad yw'n orfodol. Roedd ein gwariant gweithredu hefyd £8.1m yn is na'r disgwyl, yn rhannol o ganlyniad uniongyrchol i'r gostyngiad mewn gweithgarwch cyllid a grantiau, yn rhannol oherwydd bod y rhaglen weithredol yn ceisio sicrhau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ac yn rhannol oherwydd oedi mewn rhai prosiectau a fydd nawr yn cael eu rhoi ar waith yn 2023-24. Roedd incwm nad oedd yn dod o'r Lefi hefyd £2.1m yn is na'r disgwyl ac rydym wedi cydnabod cynnydd o £10.9m yn yr atebolrwydd posibl i ESFA i adfachu cyllid hanesyddol ar gyfer prentisiaethau yn Lloegr.

INCWM Y LEFI

Incwm y Lefi yw prif ffynhonnell gyllid CITB ac mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cynlluniau grant a chyllido sy'n cefnogi'r diwydiant adeiladu i ymateb i'r galw am sgiliau, datblygu capasiti a gallu darparu hyfforddiant a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau yn y dyfodol.



Oherwydd yr amodau economaidd ehangach, roedd y galw am hyfforddiant yn is na'r disgwyl ac mae wedi golygu ein bod wedi diweddu'r flwyddyn gyda chronfeydd wrth gefn uwch na'r disgwyl, ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn gyda'n cynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24 a thu hwnt.

Incwm y Lefi ar gyfer y cyfnod oedd £170.6m (2021-22: £108.3m), yn cynnwys £169.0m (2021-22: £100.4m) mewn perthynas ag asesiad y flwyddyn gyfredol (net o ddyled ddrwg y flwyddyn Lefi bresennol), a chynnydd mewn perthynas ag asesiadau blynyddoedd blaenorol o £1.5m (2021-22: £7.9m). Roedd cyfanswm y lefi a gasglwyd bron yn union fel y rhagwelwyd. Yn 2021-22 fe wnaethom leihau cyfraddau'r lefi o 50% i gefnogi'r diwydiant yn ystod anterth y pandemig pan fu toriadau mewn hyfforddiant. Yn 2022-23, fe wnaethom ddychwelyd i'r lefi lawn gyda'r cyfraddau blaenorol. Ar ôl gostwng cyfraddau'r Lefi o 50% dros dro ar gyfer y flwyddyn flaenorol, fe wnaethom ailgyflwyno'r lefi llawn yn 2022-23, felly roedd y cyfraddau a ddefnyddiwyd yn 0.35% ar daliadau llafur uniongyrchol (PAYE) a 1.25% ar daliadau net Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS).

Fe wnaethom gynnal eithriadau ar gyfer busnesau bach, ac ni chodwyd lefi o gwbl ar gwmnïau â throsiant o lai na £120,000; ac roedd gostyngiad o 50% yn y lefi ar gyfer cwmnïau dros £120,000 ond llai na £400,000. Ar 31 Mawrth 2023, roedd 74,670 o gyflogwyr ar y gofrestr Lefi a Grantiau (77,649 ar 31 Mawrth 2022). Mae'r gostyngiad yn deillio o nifer y busnesau a aeth i'r wal yn ystod y pandemig, yn enwedig yn y sector mentrau bach.

INCWM DI-LEFI AC INCWM ARALL

Roedd yr incwm di-Lefi yn £33.7m (2021-22 £40.3m). Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â Phrofi Iechyd a Diogelwch £10.2m (2021-22 £12.1m), incwm prentisiaethau a reolir £10.3m (2021-22 £13.6m) wedi'i leihau oherwydd nad yw contractau Llywodraeth Cymru a Lloegr yn cael eu hadnewyddu, E-Ddysgu a Chyhoeddiadau £8.6m (2021-22 £7.7m), Site Safety Plus £6.1m (2021-22 £6.0m), incwm masnachol NCC £5.1m (2021-22 £4.4m) a llog a enillwyd £900,000 (2021-22 £200,000).

Roedd ffigur 2021-22 yn cynnwys £2.1m o gyllid gan yr Adran Addysg (DfE) ar gyfer y Gronfa Sgiliau Adeiladu sydd bellach wedi dod i ben. Ac mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adfachu cyllid hanesyddol posibl o £10.9m (2021-22: £5.9m). Ac eithrio'r ddwy eitem eithriadol hyn, byddai cyfanswm yr incwm di-Lefi yn dangos cynnydd o £600,000 flwyddyn ar ôl blwyddyn. →

CYNLLUN GRANTIAU

Roedd gwariant grantiau yn ystod y flwyddyn yn £85.3m, i fyny o £78.8m (8%) yn 2021-22. Nid oedd y cynnydd mor uchel â'r disgwyl £100.7m oherwydd bod effaith barhaus y pandemig a'r ansicrwydd economaidd cyffredinol wedi lleihau'r galw am hyfforddiant. Helpodd y grantiau a dalwyd i gefnogi 22,803 (2021-22: 19,823) o brentisiaid, gyda 14,300 (2021-22: 15,752) o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cwblhau ac 8,740 (2021-22: 12,169) o brofion offer. Derbyniodd cyfanswm o 14,523 o gyflogwyr y grant (2021-22: 13,950).

CYLLID AR SAIL RHAGLENNI

Gyda'i gilydd, fe wnaethom wario £20.2m ar gyllid sy'n seiliedig ar raglenni (2021-2022: £18.4m) i fyny o'r flwyddyn flaenorol ond yn llai na'r hyn a gynlluniwyd. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ar sail rhaglenni a wariwyd yn ystod y flwyddyn: Cronfa Sgiliau a Hyfforddiant gwerth £8.9m ar gyfer cwmnïau bach a chanolig, Grwpiau Hyfforddi gwerth £2.6m a Phrentisiaethau a rennir o £0.9m.

COSTAU UNIONGYRCHOL

Yn ystod y flwyddyn, £16.1m oedd costau uniongyrchol incwm nad oedd yn deillio o'r lefi (2021-22: £18.7m).

CRONFEYDD WRTH GEFN A'R POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae angen cronfeydd wrth gefn i dalu am oedi mewn derbyniadau incwm, hawliadau grant carlam a chostau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, ac i sicrhau cyllid parhaus gan y diwydiant adeiladu, yn unol â'n hamcanion elusennol.

Y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar 31 Mawrth 2023 yw £102.7m (31 Mawrth 2022: £94.3m) sy'n uwch na'n terfyn isaf yn y polisi o £40m. Ar y pwynt hwn mewn cylch economaidd, ac wedi'i waethgu gan effeithiau'r pandemig, lle mae derbyniadau lefi yn dal eu tir ond mae diffyg galw am grantiau hyfforddi a chyllid yn golygu bod gwariant yn dangos dirywiad cylchol. Mae'r Bwrdd wedi rhoi cyfarwyddyd clir y dylid lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn ac mae hyn yn cyd-fynd â'r cynlluniau a nodir yng Nghynllun Busnes 2023-24 a Chynllun Strategol 2024-28 a fydd yn sail i'r Consensws a'r Gorchymyn Lefi nesaf.

Mae darparu prentisiaethau wedi bod yn faes ffocws penodol yn ystod y flwyddyn, wedi'i lywio gan weithgareddau rheoli risg a chanlyniadau arolygiadau annibynnol, ac archwiliadau mewnol ac allanol. Adolygwyd camau lliniaru a diweddarwyd cynlluniau lle bo angen. Mae strwythur ac adnoddau llywodraethu diwygiedig ar waith, gyda chymorth ymgynghorol, i barhau i sbarduno gwelliant cyflym yn 2023-24.

Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn mewn perthynas â'r risg o ddiffyg cydymffurfio â rheolau ariannu'r Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) ar gyfer darparu prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer blynyddoedd academaidd 2018-19 a 2019-20. Mae hyn yn cynrychioli terfyn uchaf ein hatebolrwydd ac, yn dilyn ymgysylltu cynhyrchiol â nhw, rydym yn disgwyl cytuno ar sefyllfa sylweddol is a therfynol gyda'r ESFA erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Ar yr un pryd, rydym wedi tynnu'n ôl o is-gontractio darpariaeth yng Nghymru a Lloegr, ac wedi cymryd camau i drawsnewid ein dull o reoli cofnodion yn y maes hwn, gan gynnwys buddsoddi mewn newidiadau i'n model gweithredu, a mabwysiadu system rheoli dysgwyr sy'n arwain y farchnad. (LMS) i gasglu tystiolaeth yn amserol ac yn cydymffurfio i gefnogi darpariaeth yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi cael budd o ymarfer sicrwydd allanol, a gwblhawyd gan RSM, sydd wedi cadarnhau bod ein harfer presennol wedi gwella'n sylweddol ers y blynyddoedd hyn, lle nad oedd rheoli cofnodion ar y lefel a ddisgwyliwn.

Rydym yn glir, fodd bynnag, fod yr hyfforddiant yr ydym wedi'i hwyluso wedi galluogi prentisiaid i ddatblygu eu sgiliau a symud ymlaen yn y diwydiant, fel bod y cyllid hwn wedi'i ddefnyddio yn ôl y bwriad, ac wedi ychwanegu gwerth drwy gefnogi'r nifer o weithwyr medrus sydd ar y gweill i yrfae adeiladu.

Cydnabyddir, ochr yn ochr â gwallau gwirioneddol, y gallai ein cynllun grant fod yn destun rhai hawliadau anghyfreithlon.

Mae CITB yn ymwybodol o'r datguddiad hwn ac mae ganddynt brosesau ar waith i wirio a chywiro gwallau dilys a/neu adennill hawliadau anghyfreithlon. Cydnabyddir bod rhywfaint o risg weddilliol ac anfesuradwy yn parhau yn y boblogaeth o hawliadau a wneir gan gyflogwyr cymwys ac mae CITB yn gweithio i dynhau'r gweithdrefnau hyn. Mae'r risgiau strategol y mae CITB yn eu hwynebu a'r camau lliniaru mewn perthynas â nhw wedi bod yn destun adolygiad parhaus drwy gydol y flwyddyn. Mae'r risgiau, rheolaethau lliniarol a chamau pellach sydd eu hangen yn cael eu hadolygu o leiaf bob mis gan uwch reolwyr ac ym mhob cyfarfod gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd. Mae rhaglen o adolygiadau manwl yn archwilio'r risgiau'n fanylach i ystyried a yw'r camau sy'n cael eu cymryd yn ddigonol i sicrhau bod risg yn parhau o fewn, neu'n cael ei ddwyn i mewn, o fewn Archwaeth Risg y Bwrdd. Yn hwyr yn 2022, cynyddwyd y risg o ddirywiad economaidd sylweddol i Risg Strategol o ganlyniad i'r rhagolygon economaidd ansicr, a chymerwyd camau i ystyried sut y gallai CITB gefnogi diwydiant yn y ffordd fwyaf effeithiol pe bai dirywiad sylweddol yn digwydd.

Roedd y broses o adolygu risg yn parhau i ganolbwyntio ar liniaru effeithiau posibl y risgiau drwy gydol y flwyddyn ac yn cefnogi camau gweithredu a oedd yn sicrhau nad oedd y Risgiau Strategol yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gyflawni canlyniadau blaenoriaeth nac amcanion strategol.

Mae Strategaeth CITB ar gyfer 2024-28 yn cael ei datblygu gan ystyried y Risgiau Strategol a'r risgiau sy'n rhan annatod o'r strategaeth arfaethedig, a lle bo modd, sut y gellir lleihau neu liniaru'r rheini ar gyfer y dyfodol. Nodir risgiau sy'n ymwneud ag amcanion ac ymyriadau arfaethedig ac maent yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses gynllunio. Amlygodd ymarfer sganio'r gorwel diweddar nifer o risgiau posibl ar gyfer y dyfodol gan gynnwys y cyfleoedd a'r bygythiadau posibl a achosir gan dechnoleg newydd a deallusrwydd artifisial, ond ni aseswyd bod yr un ohonynt ar hyn o bryd yn peri risg sylweddol i berfformiad yn y dyfodol. Ar ôl cytuno ar Strategaeth 2024-28, byddwn yn cynnal ailasesiad llawn o'r Risgiau Strategol a allai fygwth cyflawni'r amcanion. ●

Adolygwyd y risgiau strategol y mae CITB yn eu hwynebu a'r camau lliniaru mewn perthynas â nhw yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

● Yn gyffredinol, yn seiliedig ar ganlyniadau gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd yn ystod 2022-23, fel Pennaeth Archwilio Mewnol fy nghasgliad ystyriol yw mai'r farn y gallaf ei rhoi yw, er bod y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ariannol yn foddhaol, bod angen gwelliant i reolaethau mewnol mewn meysydd heblaw'r rhain.

Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu ar gyfer pob archwiliad a fydd, ar ôl eu gweithredu'n llawn, yn cryfhau rheolaethau. Mewn nifer o'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella, cwblhawyd gwelliannau i reolaethau yn ystod 2022-23 ac maent wedi cryfhau'r amgylchedd rheoli erbyn 31 Mawrth 2023. Y maes allweddol y mae angen ei wella yw'r rheolaethau dros gyflawni contractau prentisiaeth. Yn y maes hwn, er gwaethaf ymdrechion parhaus i wella'r sefyllfa drwy gydol 2022-23, mae angen gwelliannau pellach o hyd. Mae'r angen am gymorth ychwanegol wedi'i gydnabod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd ac mae'n destun rhaglen ddatblygu barhaus. Bydd cryfhau systemau TG hefyd yn cefnogi'r amgylchedd rheoli yn y maes hwn trwy leihau'r ddibyniaeth ar brosesau llaw, taenlenni ac atebion. Mae prosiectau i gyflawni'r gwelliannau hyn ar y gweill. ●

Mae system lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ariannol CITB yn foddhaol, ond mae angen gwella meysydd eraill.



Strategaeth Cynaliadwyedd Mewnol

Mae CITB yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd. Yn 2022, fe wnaethom gwblhau ymarfer perthnasedd i helpu nodi, mireinio ac asesu nifer o faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu posibl a allai effeithio ar y sefydliad. Lluniwyd rhestr fer o ffactorau perthnasol, a bu rhywfaint o ymgysylltu â rhanddeiliaid i geisio adborth ar ba faterion perthnasol y dylai CITB eu blaenoriaethu.

Bydd Strategaeth Cynaliadwyedd Mewnol CITB yn canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol:

● **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYHNWYSIANT**

● **SERO NET / EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

● **IECHYD, DIOGELWCH A LLESIAINT**

● **HYFFORDDIANT A SGILIAU**

● **Fel aelod o Busnes yn y Gymuned, fe wnaethom gwblhau ei Adnodd Tracio Busnesau Cyfrifol a byddwn yn ymgorffori'r adborth ar feysydd i'w gwella yn ein Strategaeth Cynaliadwyedd.**

Trafodwyd ac adolygwyd perchnogaeth o ran cynaliadwyedd, ac ailaseiniwyd atebolrwydd i'r Prif Swyddog Ariannol.

ADEILADU CYNALIADWY

Nid yw CITB wedi gwneud unrhyw waith adeiladu nac adnewyddu mawr yn ystod y flwyddyn adrodd. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yn y Colegau Adeiladu Cenedlaethol a bydd yr Ystâd yn cael ei datblygu i'w galluogi i gyflawni ei thargedau Sero Net.

ÔL TROED CARBON

Mae CITB wedi nodi Datganiad o Fwriad yn ei Bolisi Amgylcheddol i gyrraedd Sero Net yng Nghwmpas 1 a 2 erbyn 2030 a Chwmpas 3 erbyn 2040.

Wrth i ni ymdrechu i weithio tuag at Sero Net, mae CITB yn blaenoriaethu'r gwaith hwn ac mae wedi cwblhau ei ymarfer sgrinio cyntaf gan ddefnyddio'r Offeryn Protocolau Quantis GHG i ddeall ei allyriadau Cwmpas 3, gan nodi bod dros 90% o'i ôl troed carbon o fewn Cwmpas 3, a 'Cynhyrchion a Gwasanaethau' Categori 1 sy'n dangos y ganran fwyaf o gyfanswm y stocestr. Gall fod yn anodd cael gafael ar ddata ar gyfer allyriadau Cwmpas 3, ac mae gwaith wedi dechrau ar y ffordd orau o gasglu'r data hwn, a bydd dull gweithredu fesul cam yn cael ei ddefnyddio.

Mae CITB yn 'o fewn cwmpas' Ymrwymiadau Gwyrdd y Llywodraeth Ganolog (GGCs)¹, sy'n nodi'r camau gweithredu y bydd adrannau llywodraeth y DU a'u hasiantaethau yn eu cymryd

i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd; ac rydym wedi defnyddio canllawiau blynyddol Trysorlys EF² i gynnig tryloywder yn ein hadroddiadau Cynaliadwyedd.

Cesglir y data o dri safle sy'n eiddo i CITB, Erith, Bircham ac Inchinnan, ac nid yw'n cynnwys data o adeiladau ar les ar hyn o bryd h.y. y Brif Swyddfa yn Peterborough ac Adeilad Sanctuary yn Llundain.

Oherwydd newid i batrymau gweithio mwy hybrid, cafodd gofod swyddfa Peterborough ei leihau yn 2022, ac mae bellach yn cynnwys data sy'n ymwneud ag allyriadau'r gweithlu wrth weithio gartref.

Cyflwynwyd hyfforddiant i wella sgiliau pob cydweithiwr ar bwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd a chyrraedd Sero Net i'w helpu i ddeall pa newidiadau y gallant eu gwneud yn y gweithle ac yn y cartref.

Mae CITB yn parhau i weithio gyda chyflenwyr i wella cywirdeb a phrydlondeb anfonebau a data defnydd.

Oherwydd effaith pandemig Covid a rhaglen waredu Gweledigaeth 2020, mae'n anodd gwneud llawer o gymhariaeth rhwng y blynyddoedd ac felly nid yw'n cynnwys data ar gyfer dwy flwyddyn adrodd (2019–20 a 2020–21). Rydym wrthi'n adolygu'r broses o sefydlu blwyddyn waelodlin briodol ar gyfer mesur gostyngiadau yng Nghwmpas 1, 2 a 3.

Nid oes archwiliad wedi'i gynnal ar yr wybodaeth yn yr adran hon, ac nid yw'n rhan o farn yr archwilwyr ar y cyfrifon. →

¹ Gwyrddu Ymrwymiadau'r Llywodraeth 2021 i 2025 (www.gov.uk)

² Trysorlys EM 22–23 Canllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd (bit.ly/shortlink)

CYNALIADWYEDD

2/7

Tabl 4: ALLYRIADAU NWYON Tŷ GWYDR

			EBR 22 - MAW 23	EBR 21 - MAW 22
Dangosyddion anariannol (tCO2e)	Cwmpas 1	Ymlosgiad tanwydd ¹	1050	783
		Trafnidiaeth sy'n eiddo i CITB ²	319	126
		Allyriadau sy'n ffoi	18	-
	Cwmpas 2	Teithio busnes	387	519
	Cwmpas 3	Teithio busnes ³	91	31
		Defnyddio deunyddiau a brynwyd (papur) ^{4,5}	192	3
		Gwaredu gwastraff	5	4
Gweithio gartref ⁶		331	-	
Dangosyddion ariannol (£)	Teithio busnes	-	529,426	166,841
tCO2e	Fesul gweithiwr amser llawn ⁷	-	3.35	2.3

Tabl 5: GWASTRAFF

			EBR 22 - MAW 23	EBR 21 - MAW 22
Dangosyddion anariannol (tunelli)	Cyfanswm y gwastraff (heb gynnwys gwastraff TGCh)		257	183
	Gwastraff TGCh a ailgylchwyd		2.56	2
	Gwastraff TGCh a aildefnyddiwyd		1.03	3
	Gwastraff TGCh peryglus		1.27	2
	Gwastraff a ailgylchwyd		87	116
	Gwastraff a gompostiwyd		-	-
	Gwastraff a losgwyd gan adfer ynni		133	57
	Gwastraff a losgwyd heb adfer ynni		-	-
	Gwastraff bwyd		4.3	3.39
	Gwastraff i safleoedd tirlenwi		11	13
Dangosyddion ariannol (£)	Prif gontract		57,550	42,973 ¹
	Gwastraff TGCh		-	-
	Gwasanaeth gwastraff cyfrinachol ²		2,228	2,546

Tabl 4: Defnyddiwyd ffactorau trosi nwyon tŷ gwydr Defra (set gryno) ar gyfer 2022 oni nodir yn wahanol ac maent yn cael eu talgrynnu i'r dunnell fetrig agosaf.

¹ Mae nawr yn cynnwys disel gwyn a ddefnyddir ar gyfer cerbydau hyfforddi

² Defnyddir ffactorau trosi maint injan car a math o danwydd erbyn hyn yn hytrach na'r ffactor trosi ar gyfer tanwydd anhysbys mewn car maint canolig fel y'i defnyddiwyd yn 2021-2022, gan roi ffigur allyriadau mwy cywir

³ Yn cynnwys milltiroedd ceir personol, awyrennau, rheilffyrdd ac, o 2022-23 ymlaen, nosweithiau a arhosir mewn gwestai. Nid oedd unrhyw ddata milltiroedd ar gael ar gyfer bysiau, tacsis, trenau tanddaearol a cheir wedi'u llogi er mwyn gallu cyfrifo tCO2e. Fe wnaeth CTM, y cwmni rheoli teithio a ddefnyddir gan CITB, gyfrifo a chyflenwi'r tCO2e a ddefnyddiwyd ar gyfer teithio ar drenau ac awyrennau

⁴ Mae'r ffactor trosi a ddefnyddiwyd yn ymwneud â ffynhonnell wreiddiol. Daw rhai cynhyrchion papur o ffynonellau wedi'u hailgylchu, er nad yw'n bosibl dangos eu bod yn dod o gyflenwad Dolen Gaeedig

⁵ Mae'r data bellach yn cynnwys deunydd wedi'i argraffu gan gwmni argraffu trydydd parti CITB sy'n cynnwys y Ffurflen Lefi a'r nodiadau cyfarwyddyd

⁶ Cyfrifwyd data newydd a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn adrodd hon gan ddefnyddio ffactor trosi'r Llywodraeth o 0.34075 kgCo2e (y cyfartaledd ar gyfer y DU) ar sail gweithio 35 awr cyfwerth ag amser llawn dan gontract

⁷ Nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd gan CITB yn uniongyrchol a dros dro yn ystod y flwyddyn (a fynegwyd mewn swyddi cyfwerth ag amser llawn) oedd 714, gyda thua 591 naill ai'n gweithio gartref yn ôl eu cytundeb neu'n hyblyg.

Tabl 5: Nid yw'r data perfformiad gan ein contractwyr gwastraff presennol ar hyn o bryd yn dadansoddi'r gost ariannol fesul categori gwastraff. Pan fydd contractau'n cael eu hail-dendro, byddwn yn gofyn am y lefel hon o ddadansoddiad fel rhan o'r gofyniad adrodd.

¹ Ffigur wedi'i ddiwygio o'r £35,811 net i gros

² Mae cost y contract ar gyfer gwastraff papur cyfrinachol hefyd yn cynnwys casglu cwpanau plastig a chaniau metel o swyddfeydd.

GWASTRAFF

Bu cynnydd yng nghyfanswm y gwastraff o'i gymharu â 2021-22 ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod nifer uwch o hyfforddeion yn mynychu cyrsiau ar y safle ar ôl y pandemig.

Parhau mae'r ymdrechion i newid cynnyrch o blastig untro ar gyfer defnyddwyr (CUSPs). Yn 2022, tynnodd Sodexo (ein darparwr arlwy) CUSPs o'u rhestrau prynu fel rhan o'u strategaeth cyfrifoldeb corfforaethol ac mae disgwyl y bydd y stoc bresennol wedi'i dihysbyddu erbyn Haf 2023 a'u disodli gan ddewisiadau eraill cynaliadwy.

Rydym yn ymchwilio i ffyrdd arloesol o roi eitemau y gellir eu haildefnyddio (dodrefn swyddfa / deunydd gwelyo) fel rhoddion i'r gymuned leol.

ALLYRIADAU SY'N FFOI

Mae llwyth carbon o lai na 30 tunnell gan bob uned aerdymeru yn CITB ac maen nhw'n cael eu gwasanaethu'n llawn ac yn cael eu harchwilio'n weledol unwaith y flwyddyn. Nid yw rhai unedau ar safle Bircham yn cael eu defnyddio mwyach ac maent wedi cael eu gwneud yn ddiogel a byddant yn cael eu datgomisiynu. Yn ystod y cyfnod adrodd, defnyddiwyd 10kg o R407C i 'lenwi' dwy uned aerdymeru yn Bircham ac nid oedd angen yr un ohonynt yn Erith nac yn Inchinnan. →

TABL 6: DEFNYDD O ADNODDAU Y MAE PENDRAW IDDYNT

			EBR 22 - MAW 23	EBR 21 - MAW 22
Dangosyddion anariannol	Ynni	Cyfanswm trydan (kWh)	1,971,380	2,443,197
		Trydan: safonol (kWh)	1,929,981	1,734,670
		Trydan: gwyrdd (kWh) ¹	41,399	708,527
		Nwy naturiol (kWh)	520,154	326,704
		LPG (litrau)	14,037	7,392
		Cerosin olew (litrau)	352,909	291,000
		Biomass (tunelli) ²	743	567
	Adnoddau meidrol	Dŵr (m3)	23,736	20,504
Papur (rimiau) ³		83,655	1,277	
Dangosyddion ariannol (£)	Ynni	Trydan	581,786	486,650
		Nwy (naturiol ac LPG)	40,892	21,594
		Cerosin olew	327,607	175,256
		Biomass	32,183	21,123
	Adnoddau meidrol	Dŵr	83,337	68,984
		Papur ³	6,511	4,235
		Pryniannau gwrthbwysu achrededig	0	0

¹ Mae trydan wedi'i brynu ar dariff safonol 100% gyda 2.1% o ynni adnewyddadwy fel yr adroddwyd yn flaenorol gan EDF Energy Fuel Mix fel 29% yn 2021-22, ac erbyn hyn mae'n cynnwys 49.6% o allyriadau sero net o gyflenwad niwclear

² Bu cynnydd sydyn yn swmp y papur a ddefnyddiwyd yn sgil cynnwys deunydd a argraffwyd gan gwmmi argraffu trydydd parti CITB sy'n cynnwys y Ffurflen Lefi a'r nodiadau cyfarwyddyd

³ Mae'r costau'n adlewyrchu eitemau a brynwyd drwy'r darparwr deunydd ysgrifennu. Mae'r costau'n ymwneud ag eitem 2 uchod. Y gobaith yw y gellir dethol ac adrodd arnynt yn y dyfodol.

CYNALIADWYEDD

4 / 7

EGNI

Daw cyflenwyr ynni drwy Fframwaith y Llywodraeth gyda Gwasanaethau Masnachol y Goron (CCS). Ar y cyfle cyntaf, bydd CITB yn newid i gyflenwad gydag allyriadau sero net 100% ar gyfer trydan a ffynhonnell allyriadau isel (bionwy) ar gyfer nwy o'r prif gyflenwad er mwyn helpu i ddileu allyriadau Cwmpas 1 a 2.

Adolygwyd sgôr effeithlonrwydd ynni adeiladau sy'n eiddo i CITB a datblygir cyfleoedd i wella effeithlonrwydd yn ein Strategaeth Ystadau Gwyrdd. Bu gostyngiad yn lefel y trydan sy'n cael ei gaffael ac mae hyn yn rhannol oherwydd bod y biliau'n fwy cywir.

DŴR

Gosodwyd naw is-fesurydd yn Bircham er mwyn gallu mesur y defnydd yn fwy cywir gan rhoi'r cyfle i archwilio rhagor ar y posibilrwydd o arbed dŵr a bod yn rhan o'r Strategaeth Ystadau Gwyrddach.

TEITHIO BUSNES

Cynyddodd allyriadau o deithiau busnes yn ystod 2022-23 wrth i ryngweithiadau wyneb yn wyneb ailddechrau ar ôl y pandemig. Mae'r data bellach yn cynnwys costau teithio a hawliwyd gan yr Ymddiriedolwyr ac aelodau'r Pwyllgor. →

TABL 7: CWMPAS 1 – TRAFNIDIAETH SY'N EIDDO I CITB¹ (GAN GYNNWYS CERBYDAU AR LES)

MAINT YR INJAN	MILLIROEDD	CO2E	GWARIANT GROS
Trydan	22,990	1902	1,151
LPGs	1148	365	436
Disel 1600cc neu lai	259,246	58,367	34,336
Disel 1601cc i 2000cc	273,416	73,929	44,747
Disel dros 2000cc	45,379	15,303	9,469
Petrol 1400cc neu lai	228,951	53,987	33,461
Petrol 1401cc i 2000cc	341,647	101,551	59,570
Petrol dros 2000cc	31,028	13,801	14,039

TABL 8: CWMPAS 3 – TEITHIO BUSNES SWYDDOGOL – DOMESTIG YN UNIG

DULL TRAFNIDIAETH	CO2E	GWARIANT GROS
Teithiau awyren domestig	23	£19,748
Rheilffyrdd ²	18	£131,602
Aros mewn gwestai	30	£344,237
Cerbydau preifat – sy'n eiddo i staff	19	£33,839

TABL 9: MEYSYDD TARGED ERAILL

MEYSYDD TARGED ERAILL	EBR 22 – MAW 23	EBR 21 – MAW 22
Dangosyddion anariannol	-	-
Nifer y teithiau awyren domestig	202	2

¹ Mae data'n defnyddio'r dyddiad y gwneir y taliad yn hytrach na dyddiad y daith.

² Nid yw'n cynnwys data trenau tanddaearol, tramiau, bysiau, coetsis na thacsis.

CYNALIADWYEDD

5/7

CERBYDAU SY'N EIDDO I CITB

Ar 9 Mawrth 2023, roedd gan CITB fflyd o 120 o geir cwmni, gydag 8 ohonynt yn geir trydan a 31 yn geir hybrid; diffiniwyd 15% o'r fflyd yn Gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVs), sef; y rheini sy'n cynhyrchu llai na 75 gram o CO₂, gan gynyddu o'r ganran o 11% yn 2021-2021 ond yn methu â chyrraedd targed Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth o 25% erbyn 31 Rhagfyr 2022. Bydd CITB yn parhau i newid ei fflyd i ULEV a bydd nawr yn gweithio tuag at y targed nesaf er mwyn i'w fflyd o geir fod â dim allyriadau o gwbl o'r bibell ôl erbyn 31 Rhagfyr 2027.

I gefnogi'r cynnydd yn nifer y cerbydau trydan sy'n dod i safleoedd CITB, ychwanegodd CITB bedwar pwynt gwefru arall yn Bircham, dau yn Erith ac mae cynlluniau i osod dau yn Inchinnan.

Mae gan CITB 32 o gerbydau masnachol sy'n cael eu defnyddio yn ei Golegau Adeiladu Cenedlaethol, gan gynnwys craeniau, tryciau dadlwytho a thri cherbyd trydan ar gyfer dosbarthu nwyddau o amgylch y safleoedd.

Mae CITB yn parhau i fod yn brif arweinydd y farchnad yn Ewrop ym maes hyfforddiant Peiriannau gan ddefnyddio darpariaeth efelychwyr. Daw'r hyfforddeion yn gymwys i ddefnyddio rheolyddion y peiriannau cyn mynd i'r maes hyfforddiant ymarferol gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn allyriadau carbon o'r amser a arbedwyd yn defnyddio'r peiriannau go iawn. Mae llawer o'r peiriannau'n cael eu lesio a'u diweddarau o fewn chwe mis gan sicrhau bod gan yr injans y dyluniad a'r mesurau effeithlonrwydd diweddaraf.

I gefnogi uchelgais Grŵp Adeiladu Sero Net Cyngor Arwain y Diwydiant Adeiladu o fod bron yn rhydd o ddisel erbyn 2035, mae CITB yn edrych ar sut gall ddisodli peiriannau sy'n cael eu pweru gan ddisel â dewisiadau tanwydd allyriadau isel eraill fel trydan, hydrogen a biodanwydd erbyn 2030 i gyflawni ei darged Cwmpas 1 ei hun.

Cynigiwyd hyfforddiant i yrwyr i weithwyr CITB mewn rolau symudol. Cwblhaodd 22 o gydweithwyr yr hyfforddiant a oedd yn cynnwys modiwl ar eco-yrru. →



CYNALIADWYEDD

6/7

PAPUR

Bu cynnydd yn swm y papur a adroddwyd oherwydd bod y data'n cynnwys cyflenwr trydydd parti sy'n cynhyrchu ffurflenni Lefi a dogfennau canllaw CITB. Gwnaed newidiadau i drefn ddsbarthu Ffurflen Lefi 2023 sy'n cynnwys symud o lyfryn nodiadau cyfarwyddyd 20 tudalen i adnodd ar-lein a'i ddisodli â thaflen 8 tudalen yn y post. Bydd y ddogfen 40 tudalen i gyflogwyr yng Nghymru nawr yn cynnwys dwy daflen 8 tudalen.

Drwy gyfathrebu â chyflogwyr ar y Ffurflen Lefi, maent yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein. Yn ystod 2023-24, rhagwelir y bydd gostyngiad o 20% yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon.

Mae rhagor o gyfleoedd yn cael eu hystyried i symud mwy o gynnyrch a gwasanaethau wedi eu hargraffu i ôl troed digidol.

CAFFAEL NWDYDDAU A GWASANAETHAU CYNALIADWY

Fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cyhoedd, mae'n ofynnol i CITB llynu at Hysbysyddau Caffael Cyhoeddus y Llywodraeth ar amryw o bynciau cynaliadwyedd: gan gynnwys 'PPN 06/20 - ystyried Gwerth Cymdeithasol wrth ddyfarnu contractau Llywodraeth Ganolog'; ac os yw'n berthnasol - 'PPN 06/21 - ystyried y Cynllun Lleihau Carbon wrth gaffael contractau mawr y Llywodraeth'. Cafodd cwestiynau eu cynnwys yn y tendrau, ond nid oes unrhyw waith monitro wedi dechrau eto. Bydd y tîm Caffael yn cwblhau diwrnod llawn o hyfforddiant ym mis Hydref 2023 i uwchsgilio a sicrhau eu bod yn gwreiddio cwestiynau ystyrlon yn briodol ac yn gallu adrodd ar y canlyniadau.

ADFER NATUR

Lleolir y Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn Bircham Newton, yng nghefn gwlad Norfolk ac mae ganddo amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau. Nid oes gan CITB gynllun gweithredu bioamrywiaeth ffurfiol ond mae'n cynnal y trefniadau cynnal a chadw sy'n cael eu hargymell gan arbenigwyr allweddol sy'n monitro gwahanol rywogaethau ar y safle: sef ystlumod, tylluanod a phiod y môr

Ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom ymrwymo i blannu rhodfa â deg coeden ar ein safle yn Bircham a thair coeden yn Inchinnan fel rhan o Ganopi Gwyrdd y Frenhines, cynllun i nodi blwyddyn Jiwbilf Platinwm y Frenhines. Cwblhawyd y gwaith plannu ym mis Hydref 2022 er cof ac i anrhydeddu Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II.

Nid yw CITB o'r farn ei fod yn dal cyfalaf naturiol neu ddaliadau tir sylweddol ac nid yw wedi cynnal Asesiad Dull Galluogi Cyfalaf Naturiol (ENCA). Mae sawl poced o goetir, glaswelltir a dŵr croyw ar safle Bircham CITB yn arbennig, ac maent yn cael eu cynnal drwy drefniadau rheoli presennol y gellir eu hadolygu gyda'r posibilrwydd o wella'r cynefinoedd lleol hyn a'r rhywogaethau cysylltiedig ymhellach

ADDASU I'R NEWID YN YR HINSAWDD

Bydd proses canfod risg yn cael ei defnyddio i sicrhau y caiff yr holl risgiau eu hymgorffori yn y broses rheoli risgiau weithredol bresennol, a bydd mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith mewn strategaethau a chynlluniau perthnasol h.y. y Strategaeth Ystadau Gwyrddach a'r Cynlluniau Parhad Busnes. Gyda risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd bellach wedi'u nodi, mae mesurau lliniaru a chyfleoedd yn cael eu hadolygu sy'n arwain at wreiddio'r prosesau, y systemau a'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol. Byddwn yn gallu adrodd arnynt yn fanylach yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

LLEIHAU EFFAITH TGCH A THECHNOLEG DDIGIDOL AR YR AMGYLCHEDD

Mae CITB yn parhau i ddilyn rhaglen sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar systemau a rhaglenni hŷn nad ydynt yn addas i'r diben mwyach, a symud eu gwasanaethau i lwyfannau sy'n cynnig cost rhedeg is ac yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys adolygu'r hen weinyddion ar y safle sy'n weddill yn Bircham Newton, eu datgomiysynu lle bo hynny'n bosibl a symud i blatfform cwmwl.

Cwblhaodd CITB y gwaith o symud ei seilwaith bwrdd gwaith rhithwir ar yr eiddo i Microsoft Azure, gan leihau gofynion lletya ffisegol i sero ar gyfer y gwasanaeth hwn. Yn dilyn adolygiad o hen weinyddion a seilwaith cronfeydd data, cafodd dros 80% ohonynt eu datgomiysynu ac mae'r rheini sy'n cael eu cadw bellach yn cael eu lletya yn y cwmwl.

Mae offer bwrdd gwaith (gliniaduron / cyfrifiaduron bwrdd gwaith ac ati) yn cael eu hail-ddarparu lle bo hynny'n bosibl, er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio cymaint arnynt â phosibl a lleihau'r angen i brynu offer newydd. Pan fydd angen gliniaduron neu gyfrifiaduron bwrdd gwaith newydd, mae'r rhain bellach yn dod gan gyflenwr sy'n darparu caledwedd wedi'i addasu, gan leihau effaith amgylcheddol gweithgynhyrchu ymhellach.

Caiff cyfarpar nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach ei waredu yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

Mae CITB yn caffael ei wasanaethau cwmwl drwy fframwaith y llywodraeth 'G-Cloud' a Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS), gan sicrhau bod y cyflenwyr yn cael eu "cymeradwyo" a'u "caniatáu" gan y Llywodraeth Ganolog. ●

Gliniaduron wedi'u hailweithgynhyrchu - arbed arian a helpu'r amgylchedd

Yn CITB, rydym o ddifrif am ein hymrwymadau i gynaliadwyedd. Ochr yn ochr â SSCL, ein partner cyflenwi gwasanaethau TGCh, fe wnaethom gynnal gwerthusiad trylwyr o ran sut gaffael gliniaduron mewn ffordd mwy ecogyfeillgar.

● **O ganlyniad, cawsom uned arddangos gliniadur wedi'i ailweithgynhyrchu gan Circular Computing, a oedd yn cyfateb yn agos i'r manylbau a ddefnyddir yn CITB.**

Yn dilyn treial llwyddiannus yn caffael chwe gliniadur wedi'u hailweithgynhyrchu ym mis Tachwedd 2022, defnyddiwyd cyfanswm o 72 o liniaduron yn ystod 2022-23. Bydd y gliniaduron hyn nawr yn cael eu darparu fel offer safonol i staff sy'n ymuno o'r newydd.

Drwy ddewis gliniaduron wedi'u hailweithgynhyrchu yn hytrach na phrynu rhai newydd, mae CITB a SSCL wedi gwneud arbedion sylweddol o ran y defnydd o ddŵr, deunyddiau crai, ynni a gwastraff. Yn ogystal, fel rhan o gynllun gwrthbwysu Circular Computing, plannwyd 360 o goed, gan ennill statws Cynnyrch Carbon Niwtral a Mwy ac mae wedi cael effaith sero net ar yr amgylchedd. ●

Astudiaeth
achos



**Plannwyd 360 o goed,
gan ennill statws
Carbon Neutral Plus
Products a chael
effaith sero net ar yr
amgylchedd.**



ADRAN 5

Datganiad gan y Swyddog Cyfrifyddu

Tudalennau 52-59

Ein hagwedd at ddiogelu data



Er mwyn cyflawni ein nodau, mae CITB yn prosesu gwybodaeth bersonol am unigolion. Mae categorïau o wrthrychau data yn cynnwys cyflogwyr sy'n gysylltiedig ag adeiladu, gweithwyr a darpar weithwyr yn y diwydiant adeiladu, prentisiaid adeiladu, cyflenwyr, contractwyr a staff mewnol.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu hawliau a rhyddid unigolion mewn perthynas â phrosesu eu data personol ac rydym yn ymrwymo i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau cyfreithiol bob amser.

Rydym yn adolygu systemau a phrosesau ar gyfer trin data'n ddiogel yn erbyn y canllawiau cyfredol i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni'r safonau disgwylidig. Rydym yn dilyn arferion sy'n cydymffurfio ag ISO 27001 mewn perthynas â diogelu gwybodaeth ac rydym wrthi'n ail-ardystio Cyber Essentials Plus.

Rydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â data personol, ac mae unrhyw ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â data yn cael eu cyhoeddi a'u hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Eleni, ni roddwyd gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau.

Fel Darparwr Gwasanaeth TG allanol CITB, mae SSCL wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a mynediad at ddata ein cwsmeriaid. Mae SSCL yn dilyn arferion sy'n cydymffurfio ag ISO 27001 mewn perthynas â diogelu gwybodaeth ac rydym wrthi'n ailardystio Cyber Essentials+ ar gyfer Prentisiaethau Cymreig.

Mae SSCL yn ymchwilio i'r holl ddigwyddiadau diogelwch sy'n ymwneud â'i wasanaeth i CITB i ganfod gwelliannau addas o ran prosesau, addysg staff a mesurau diogelwch technegol. Cofnodwyd un digwyddiad difrifol iawn yn 2022-2023 a oedd yn ymwneud ag effaith toriad pŵer yn Bircham Newton ar weinyddion ym mis Rhagfyr 2022.

EIN DULL O GODI PRYDERON

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni a chynnal safonau uchel o ymddygiad yn y gwaith, yn y gwasanaeth i'r cyhoedd ac yn ein holl arferion gweithio, ac i gynnal diwylliant lle mae pobl yn cael eu hannog i ddweud eu dweud, gan fod yn hyderus eu bod yn gallu gwneud hynny heb ganlyniadau niweidiol ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Mae gennym drefniadau ar gyfer rhoi gwybod am bryderon sy'n ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern, Diogelu a'r Dyletswydd Prevent. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg adolygu a chymeradwyo ein trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn.

COFRESTR BUDDIANNAU

Fel corff cyhoeddus anadrannol, rhaid i CITB lynu wrth egwyddorion rheoleidd-dra a phriodoldeb, gan sicrhau nad yw gwrthdaro rhwng buddiannau yn cael effaith niweidiol ar ei waith. Mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr, aelodau'r Pwyllgor a Chyfarwyddwyr Gweithredol gwblhau datganiad o unrhyw fuddiannau sydd ganddynt bob blwyddyn. Nid oedd unrhyw gyfarwyddiaethau cwmni sylweddol na buddiannau eraill yn cael eu dal gan aelodau a oedd yn gwrthdaro â'u rôl a'u cyfrifoldebau. →

DATGANIAD GAN Y SWYDDOG CYFRIFYDDU, TIM BALCON

2/2

→ Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r holl staff lenwi ffurflen datgan buddiant bob blwyddyn, gan gynnwys y rheini nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan, a datgan unrhyw roddion neu letygarwch a gynigiwyd iddynt.

CYNNAL CEFNOGAETH I RANDDEILIAID

Er mwyn parhau i fodloni disgwyliadau'r diwydiant, mae'n rhaid i CITB gael cymorth gan amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn cysylltu â'r diwydiant ar bob lefel ac mae gennym gysylltiadau â ffederasiynau, undebau llafur a chyrrff addysgol. Rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth (gyda'r Adran Addysg yn San Steffan, a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban) ac rydym yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau i randdeiliaid, grwpiau a fforymau ymgynghori, ac arolygon rhanddeiliaid.

Mae'n ofynnol i CITB geisio a dangos i'r Ysgrifennydd Gwladol bod consensws gan y diwydiant ar gyfer ei Gynigion Lefi er mwyn sicrhau Gorchymyn Lefi a fydd yn galluogi CITB i gefnogi a darparu sgiliau a hyfforddiant yn y diwydiant. Yn dilyn proses Consensws lwyddiannus yn ystod haf 2021, pasiwyd Gorchymyn Lefi tair blynedd gan y Senedd ym mis Ebrill 2022.

CASGLIAD

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 yn ddigonol i barhau i reoli risgiau'n effeithiol. Mae hyn yn cael ei lywio gan waith y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r tîm Arwain, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y strwythurau llywodraethu a'r fframwaith rheolaeth fewnol. Rwy'n cydnabod y sylwadau a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill (gweler yr archwiliad Allanol ar dudalen 33). Y Datganiad Llywodraethu yw cynnyrch terfynol yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Ar sail yr adolygiad rwyf wedi'i amlinellu uchod, rwy'n dod i'r casgliad bod gan CITB system foddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol sy'n cefnogi nodau ac amcanion y sefydliad. ●



Ar sail yr adolygiad rwyf wedi'i amlinellu uchod, rwy'n dod i'r casgliad bod gan CITB system foddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol sy'n cefnogi nodau ac amcanion y sefydliad."

TIM BALCON

Swyddog Cyfrifyddu

24 Ionawr 2024





O dan adran 8 (1) o Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydysyniad y Trysorlys ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cyfrifyddu cronïadau, a rhaid iddynt ddangos darlun cywir a theg o sefyllfa CITB ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a'i wariant a'i lif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r datganiad hwnnw o gyfrifon, mae'n ofynnol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y Datganiad Ymarfer Cymeradwy Elusennau (FRS 102) a rhoi sylw i ofynion perthnasol Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i wneud y canlynol:

- Glynw wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gwneud defnydd cyson o bolisiau cyfrifyddu addas
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau o bwys yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd CITB yn parhau i weithredu
- Cadarnhau bod yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Addysg wedi dynodi Prif Weithredwr CITB yn Swyddog Cyfrifyddu CITB. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau CITB, yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr CITB yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni. ●

Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 16 Ionawr 2024 a llofnodwyd ar ei ran gan:

PETER LAUENER

Cadeirydd
24 Ionawr 2024

TIM BALCON

Swyddog Cyfrifyddu
24 Ionawr 2024

TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD A SENEDD YR ALBAN

BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y wybodaeth ganlyinol gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu:

- Y fantolen ar 31 Mawrth 2022
- Datganiad o Weithgareddau Ariannol a Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- Nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau ariannol yw cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safonau Adrodd Ariannol (FRS) 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ar 31 Mawrth 2023 a'i incwm net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno
- Wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Deddf Elusennau 2011.

BARN AR REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob agwedd o bwys, defnyddiwyd yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

SAIL BARN

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs y (DU)), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022). Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol o Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

CASGLIADAU SY'N YMWNEUD Â BUSNES GWEITHREDOL

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu o sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu at ei gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan roddir awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Rhoddir disgrifiad yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon o'm cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol.

GWYBODAETH ARALL

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif a fy adroddiad archwilydd. Y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu a yw'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod yn gamddatganiad o bwys.

Os byddaf yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, fod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn. →

BARN AR FATERION ERAILL

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

MATERION YR WYF YN ADRODD ARNYNT DRWY EITHRIAD

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi yn eu cylch os, yn fy marn i:

- Nad yw Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw
- Nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad
- Nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu
- Na wnaed rhai o'r datgeliadau o daliadau a nodir yn Neddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac adran 8 Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni
- Nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaid â chanllawiau Trysorlys EF.

CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R SWYDDOG CYFRIFYDDU DROS Y DATGANIADAU ARIANNOL

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y materion canlynol:

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir
- Rhoi mynediad i'r C&AG i'r holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill
- Rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r C&AG sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad

- Rhoi mynediad anghyfyngedig i'r C&AG i bersonau o fewn Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu y mae'r archwilydd yn penderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt
- Sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith yn ôl yr angen i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad
- Sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliadau 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006] a Deddf Elusennau 2011
- Sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a Staff, yn cael ei baratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM.
- Asesu gallu Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu naill ai'n bwriadu diddymu'r endid neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

CYFRIFOLDEBAU'R ARCHWILYDD DROS ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd hynny'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac ystyriw bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n cael eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I BA RADDAU YR YSTYRIWYD Y GALLAI'R ARCHWILIAD GANFOD ACHOSION O DDIFFYG CYDYMFFURFIO Â CHYFREITHIAU A RHEOLIADAU, GAN GYNNWYS TWYLL

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. →

CANFOD AC ASESU RISGIAU POSIBL SY'N GYSYLLTIEDIG Â DIFFYG CYDYMFFURFIO Â CHYFREITHIAU A RHEOLIADAU, GAN GYNNWYS TWYLL

Wrth nodi ac asesu'r risgiau o gael camddatganiadau o bwys mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, gwnes i:

- Ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiâu cyfrifyddu Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, a'u cymhellion perfformiad
- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisiâu a gweithdrefnau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - o canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a
 - o y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu sy'n ymwneud â chydymffurfio Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, Gorchymyn Lefi Hyfforddiant Diwydiannol (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) 2022, Deddf Elusennau 2011, a Deddf Elusennau a Buddsoddiadau gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, adran 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, a Rheoli Arian Cyhoeddus.
- Holodd y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
 - Roeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau
 - Bod ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, honedig neu honedig

- Trafod ymysg y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rhoddais ystyriaeth i'r cyfleoedd a'r cymhellion ar gyfer twyll a allai fodoli ym Mwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a nodais fod y posibilrwydd mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod referniw, postio dyddlyfrau anarferol, trafodion cymhleth, a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISAs (y DU), mae'n ofynnol i mi hefyd gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth hefyd o fframwaith awdurdod Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau o bwys yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, Gorchymyn Lefi Hyfforddiant Diwydiannol (Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu) 2022, Deddf Elusennau 2011, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, adran 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006, Rheoli Arian Cyhoeddus a deddfwriaeth cyflogaeth, pensiwn a threth berthnasol.

Yn ogystal, ystyriais y risgiau twyll a rheoleidd-dra sy'n gysylltiedig â gwariant grant. →



ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL

4 / 4

YMATEB YR ARCHWILYDD I'R RISG A NODWYD

I ymateb i'r risgiau a nodwyd yn deillio o'r gweithdrefnau uchod:

Roedd prisiad teirblwydd 2022 yn nodi bod cyfanswm gwerth actiwaraid yr asedau a gafodd gymorth gan y cynllun yn dangos gwarged o £24.8m yn erbyn rhwymedigaethau'r cynllun ar sail ariannu statudol. Ni thalwyd unrhyw gyfraniadau cyllid diffygiol i'r cynllun yn y cyfnod 12 mis (2021-22: £Dim).

Yr ystod ar gyfer cyfraniadau gweithwyr yw 4%-7% (2021-22: 4%-7%), a bydd cyfraniadau'r cyflogwr yn cyfateb i gyfraniad y cyflogai plws 2% ond cânt eu capio ar 9% (2021-22: 9%). Mae treuliau sy'n gysylltiedig â chynllun cyfraniadau diffiniedig CITB yn gysylltiedig â gweithwyr unigol ac yn cael eu dyrannu ar draws gweithgareddau ar yr un sail â chyfanswm y costau gweithwyr. Mae'r treuliau hyn yn cael eu hariannu o gronfeydd anghyfyngedig.

Fel y dangosir yn Nodyn 18, cyfanswm cyfraniadau pensiwn y cyflogwr oedd £2m ar gyfer 2022-23 (2021-22: £1.9m).

Cost gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer 2022-23 oedd £16,683.

16. YMRWYMIADAU LESIO

Mae CITB wedi ymrwymo i'r taliadau blynyddol canlynol o dan gytundebau les weithredol na ellir eu canslo:

2022-23	2022-23 TIR AC ADEILADAU £'000	ARALL £'000	2021-22 TIR AC ADEILADAU £'000	ARALL £'000
Lesoedd gweithredol				
Lesoedd yn dod i ben o fewn blwyddyn	44	286	128	239
Lesoedd yn dod i ben o fewn 2-5 mlynedd	1	343	-	179
Lesoedd yn dod i ben ar ôl 5 mlynedd	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth	45	629	128	418

17. TÂL AELODAU'R BWRDD

Roedd tâl aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn:

	2022-23 (£)	2021-22 (£)
Cadeirydd - Peter Lauener	23,102	22,725

Mae'r awdurdod a ddefnyddiwyd i dalu'r Cadeirydd wedi'i gynnwys yn Neddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.

nifer y derbynwyr oedd pump (dau yn 2021-22). Ni hepgorwyd unrhyw dreuliau o bwys gan aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd y treuliau a dalwyd i aelodau'r Bwrdd yn ystod 2022-23 yn £1,626 (£270 yn 2021-22) mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth. Cyfanswm

18. MANYLION Y STAFF

Yn ystod y cyfnod, roedd nifer cyfartalog (drwy gydol y flwyddyn) y staff a gyflogwyd yn uniongyrchol a dros dro gan CITB (wedi'i fynegi mewn termau cyfwerth ag amser llawn) fel a ganlyn:

	CYFLOGEDIG YN UNIONGYRCHOL	STAFF DROS DRO	CYFANSWM 2022-23	CYFANSWM 2021-22
Cyfanswm	660	6	666	644

Yn ystod y cyfnod, codwyd y costau canlynol mewn perthynas â'r uchod:

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Cyflogau staff a gyflogir yn uniongyrchol	29,951	26,638
Costau staff dros dro ac asiantaeth	1,915	1,517
Costau dileu swyddi	(145)	(32)
Costau nawdd cymdeithasol	3,315	2,959
Costau pensiwn	1,989	1,879
Cyfanswm	37,025	32,961

Mae tâl, hawliau pensiwn a gwerthoedd trosglwyddo pensiwn uwch gyfarwyddwyr CITB ar gael yn yr Adroddiad Taliadau ar dudalennau 84 i 89.

Gwnaed darpariaeth dileu swyddi gwerth £0.9m ar ddiwedd 2021-22, felly mae'r gost dileu swyddi uchod yn 2022-23 yn cynrychioli rhyddhau'r ddarpariaeth hon yn net ar ôl ailasesu'r amcangyfrif o gostau dileu swyddi yn 2022-23.

Amlinellir nifer y gweithwyr y mae eu henillion yn fwy na £60,000, gan gynnwys buddion o fath arall ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn, yn yr amrediadau a ddangosir isod.

	2022-23	2021-22
£60,001-£70,000	45	35
£70,001-£80,000	12	10
£80,001-£90,000	14	8
£90,001-£100,000	2	3
£100,001-£110,000	1	2
£110,001-£120,000	2	2
£120,001-£130,000	1	2
£130,001-£140,000	1	0
£170,001-£180,000	1	0

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr a dalwyd yn 2022-23 i adran cyfraniadau diffiniedig Cronfa Bensiwn y Bwrdd ar gyfer y gweithwyr hynny sy'n ennill dros £60,000 oedd £392,963 (2021-22: £302,912).

18. MANYLION Y STAFF (CONTINUED)

Dyma fanylion nifer y staff yn ôl gradd a rhyw ar ddiwedd y cyfnod:

GRADD	2022-23			2021-22		
	GWRYW	BENYW	CYFANSWM	GWRYWAIDD	BENYW	CYFANSWM
Prif Weithredwr	1	-	1	1	-	1
Cyfarwyddwr	2	3	5	2	2	4
Gradd A	15	13	28	11	9	20
Gradd B	24	19	43	24	16	40
Gradd C	48	55	103	40	50	90
Gradd D	54	73	127	57	58	115
Gradd E	147	124	271	106	77	183
Gradd F	24	56	80	55	86	141
Gradd G	12	35	47	14	31	45
Gradd H	2	4	6	3	3	6
Cyfanswm	329	382	711	313	332	645

Mae manylion absenoldeb salwch staff a swyddi oddi ar y gyflogres i'w gweld yn yr Adroddiad Taliadau (tudalen 89).

Dyma fanylion y staff a adawodd y sefydliad yn ystod 2022-23 yr oedd pecynnau ymadael dileu swydd dan gontract yn daladwy ar eu cyfer:

BAND COST PECYN YMADAEL	NIFER Y SWYDDI A DDILÛYD YN ORFODOL		NIFER YR YMADAWIADAU ERAILL Y CYTUNWYD ARNYNT		CYFANSWM NIFER Y PECYNNAU YMADAEL YN ÔL BAND COST	
	2022-23	2021-22	2022-23	2021-22	2022-23	2021-22
£10,001-£25,000	6	8	1	-	7	8
£25,001-£50,000	6	8	-	-	6	8
£50,001-£100,000	3	4	-	-	3	4
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	19	26	1	-	20	26
Cyfanswm y gost £	558,233	667,934	15,875	-	574,108	667,934

19. TRETH

Fel elusen gofrestredig, mae CITB wedi'i eithrio rhag treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol o dan adran 505 o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988. Fodd bynnag, mae'r adnoddau a dderbyniwyd yn cynnwys incwm yr ystyrir ei fod o natur nad yw'n elusennol, gan arwain at golled o £Dim (2021-22: colled o £2,856). Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth treth gorfforaeth o £Dim (2021-22: £Dim).

20. TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Y DfE yw adran noddi CITB. Ar 1 Ebrill 2022, mae'r contract gyda'r ESFA ynghylch cyllid prentisiaethau bellach wedi newid i'r Adran Addysg.

	INCWM SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB		YN DDYLEDUS I CITB	
	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
ESFA	(10,915)	1,523	-	1,053
DfE	2,523	2,506	518	-

	GWARIANT SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB		YN DDYLEDUS GAN CITB	
	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
ESFA	49	-	16,199	5,900
DfE	-	49	-	-

Ar ben hynny, mae gan rai aelodau o'r Bwrdd swyddi dylanwadol a rolau gwneud penderfyniadau gyda sefydliadau y mae CITB wedi delio â nhw yn ystod y flwyddyn. Mae manylion swyddi a chyflogaeth o'r fath wedi'u datgan yn yr atodiadau canlynol i'r adroddiad hwn:

- Mae Atodiad A (tudalennau 91 i 92) yn dangos cofrestr buddiannau'r aelodau'r Bwrdd
- Mae Atodiad B (tudalen 93) yn dangos presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau

- Mae Atodiad C (tudalennau 94 i 95) yn rhestru aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, gan roi enwau eu cyflogwyr hefyd.

Mae'r trafodiadau yn y tablau canlynol yn cynnwys derbyn Lefi ac incwm o werthu cynnyrch a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, a thalu grantiau a thaliadau ar gyfer prynu deunyddiau a gwasanaethau i'r sefydliadau a ddsberthir fel partïon cysylltiedig.

	INCWM SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB		SYMIAU SY'N DDYLEDUS I CITB AR DDIWEDD Y CYFNOD	
	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Lefi	1,079	417	326	-
Gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant	48	-	2	-
Cyfanswm	1,127	417	328	-

	GWARIANT SY'N CAEL EI GYDNABOD GAN CITB		SYMIAU SY'N DDYLEDUS GAN CITB AR DDIWEDD Y CYFNOD	
	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Talu grantiau	2,215	7	11	10
Prynu deunyddiau a gwasanaethau	262	-	-	-
Cyfanswm	2,477	7	11	10

Y Bwrdd sy'n nodi gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd CITB ac felly mae trafodion gyda phartïon sy'n ymwneud ag aelodau'r Bwrdd yn unig yn cael eu hystyried yn drafodion partïon cysylltiedig ac wedi'u cynnwys yn y tabl uchod.

Yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw reolwr allweddol, gweithiwr na pharti cysylltiedig arall wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys gyda CITB ar wahân i dâl, fel y datgelir yn yr Adroddiad Taliadau a nodiadau costau staff. Roedd yr holl drafodion yn unol â'r telerau arferol ac yn cael eu gwneud hyd braich. Ni chadwyd unrhyw arian fel asiant.

21. OFFERYNNAU ARIANNOL

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o'r math sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan CITB. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar werth y trafodiad ac yna'n cael eu mesur yn ôl eu gwerth setlo.

Delir swm sylweddol o gronfeydd wrth gefn CITB fel arian parod. Yn ogystal â chyfrifon mynediad cyflym mae CITB yn defnyddio cyfrif adnau tymor byr i elwa ar gyfradd llog uwch. Mae'r rhain yn risg isel ac yn ddigonol i fodloni gofynion hylifedd CITB.

22. COLLEDION A THALIADAU ARBENNIG

Yn dilyn eu harchwiliadau a'u trafodaethau setlo gyda'r ESFA, rydym wedi cytuno i adfachu £1.6m (£600,000 yn 2022-23 ac £1m yn 2023-24) ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio yn erbyn rheolau ariannu ar gyfer darparu prentisiaethau yn Lloegr ar gyfer y blwyddyn academaidd 2020/21 ac yn darparu ar gyfer adfachu posibl o hyd at £15.2m ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn y dyfodol. Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig yn ystod y flwyddyn, ac roedd cyfanswm y dyledion drwg a ddilëwyd yn £8.5m, o 1,405 o eitemau unigol (2021-22: £6m, o 1,261 o eitemau).

23. RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL PELL

Fel rhan o'n contract deng mlynedd gyda SSCL, mae CITB wedi cytuno i ddigolledu SSCL os byddwn yn gadael yn gynnar, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn debygol. Ar 31 Mawrth 2023, pe bai CITB yn canslo'r contract, sy'n annhebygol, byddai uchafswm rhwymedigaeth o £1.9m i ddigolledu SSCL am fuddsoddi mewn systemau a phobl sydd i fod i gael eu defnyddio dros oes y contract hyd 2029. Mae gan SSCL ddyletswydd i liniaru unrhyw golledion ac, mewn amgylchiadau arferol, bydd CITB yn talu'r arian hwn i SSCL fel rhan o gyflawni'r contract. Ar ddiwedd y flwyddyn ganlynol, 31 Mawrth 2024, mae'r uchafswm rhwymedigaeth yn cynyddu i £2.0m.

24. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen sy'n golygu bod angen addasu'r datganiadau ariannol. Cafodd y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan y Bwrdd ar y dyddiad y llofnododd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn wedi cael eu hystyried ac nid oes gan Ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i ddiwygio'r datganiadau ariannol ar ôl eu cyhoeddi.

ADRAN 7

Adroddiad Taliadau

Tudalennau 84-89

AELODAETH

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Thaliadau yn un o Bwyllgorau'r Bwrdd. Mae ei gylch gorchwyl yn darparu, ymysg materion eraill, y bydd y Pwyllgor yn cynghori ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar uwch benodiadau, y polisi taliadau, cynllunio olyniaeth y timau Gweithredol ac Arweinyddiaeth, a monitro dangosyddion perfformiad allweddol sy'n seiliedig ar bobl yn erbyn Cynllun Strategol 2021-25.

Fel arfer, mae gan y Pwyllgor dri Ymddiriedolwr Bwrdd, a chaiff un ohonynt yn cael ei benodi'n Gadeirydd. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Pobl yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor fel sail i'w benderfyniadau.

POLISI AR DÂL CYFARWYDDWYR

Adolygir taliadau unigol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol mewn perthynas â newidiadau i'r farchnad allanol ac asesiad o berfformiad unigol, a ddangosir gan y broses rheoli perfformiad. Mae taliadau perfformiad unigol, nad ydynt yn cael eu cyfuno mewn cyflogau blynyddol, yn cael eu gosod o fewn amrediad o 0%-10% o gyflog sylfaenol y cyfarwyddwyr. Mae pob gweithiwr, gan gynnwys cyfarwyddwyr, yn gymwys i fod yn aelod o Gynllun Cronfa Bensiwn ITB.

Gellir talu bonws perfformiad yn flynyddol i'r holl staff. Telir unrhyw fonws ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ond mae'n ymwneud â pherfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol, felly cânt eu cydnabod ar sail croniadau yn y datganiadau ariannol.

POLISI AR GONTRACTAU, CYFNODAU RHYBUDD A THALIADAU TERFYNU

Mae'r holl gyfarwyddwyr yn gyflogeion parhaol i'r sefydliad ac mae ganddynt gyfnod rhybudd o chwe mis.

Mae taliadau terfynu, os ydynt yn berthnasol, yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau contract CITB. Ni wneir unrhyw daliadau ychwanegol na dewisol y tu allan i delerau'r contract.

TALIADAU ANARIANNOL

Ac eithrio ceir cwmni, yswiriant iechyd, yswiriant deintyddol a gwarchodaeth salwch difrifol (nid yw'r ddau olaf yn cael eu darparu fel hawl swydd), ni ddarperir unrhyw dâl anariannol. Mae darparu ceir cwmni a sgrinio iechyd yn rhan o'r telerau ac amodau cyflogaeth safonol ar gyfer staff ar raddfeydd uwch. Fel dewis arall, telir opsiwn arian ar gyfer ceir a lwfans milltiroedd busnes.

CYFLOG A HAWLIAU PENSIWN

Mae'r adrannau ar y tudalennau canlynol yn rhoi manylion tâl am y flwyddyn a buddion pensiwn aelodau uchaf staff CITB.

TÂL AELODAU O'R BWRDD

Nid yw'r Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Thaliadau yn gyfrifol am ystyried tâl aelodau'r Bwrdd. O blith aelodau'r Bwrdd, dim ond y Cadeirydd sy'n cael tâl, a bennir gan y DfE yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.



Tim Balcon

Prif Weithredwr

Ymunodd Tim â CITB fel Prif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2021, gan ddod â hanes cryf o ddatblygu sgiliau, hyfforddiant a sefydliadau gydag ef. Mae Tim yn hanu o gefndir adeiladu ac mae ganddo brofiad helaeth o arwain cyrff proffesiynol ac aelodaeth, yn ogystal â gwybodaeth eang am y sector addysg. Nod Tim yw creu system sgiliau sy'n cydnabod galluoedd a chryfderau personol unigolion yn well, gan roi'r cymwyseddau a'r galluoedd i gyflogwyr pan a lle mae eu hangen arnynt.



Emma Black

Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfio

Ymunodd Emma â CITB yn 2017 fel Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Bwrdd, a chafodd ei phenodi i'r Tîm Gweithredol ym mis Ionawr 2021 fel Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfio. Mae rôl Emma'n cynnwys goruchwyllo'r holl faterion cyfreithiol, rheoli gweithgarwch y Bwrdd a'r Pwyllgor, contractau a chomisiynu, a chyflawni swyddogaeth archwilio a risg effeithiol. Yn ogystal â'i chyfrifoldebau gweithredol, mae Emma hefyd yn gyswllt allweddol gyda'r DfE. Mae Emma wedi ymrwymo i welliant parhaus ac mae'n blaenoriaethu buddsoddi mewn pobl y tu mewn a'r tu allan i CITB.



Jackie Ducker

Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chynnyrch

Gadawodd Jackie CITB ar 21 Ebrill 2023.



Adrian Beckingham

Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi

Daeth Adrian yn Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi CITB ym mis Mehefin 2022. Mae Adrian wedi cyflawni amrywiaeth o uwch rolau yn ystod ei 22 mlynedd yn CITB. Mae ei swyddi'n cynnwys: Pennaeth TG, Pennaeth Gwella Busnes, Cyfarwyddwr Newid ac, yn fwyaf diweddar, Cyfarwyddwr Perfformiad Corfforaethol. Mae Adrian bellach yn arwain y swyddogaethau strategaeth, dadansoddi a rhag-weld y diwydiant, polisi a chysylltiadau â'r Llywodraeth, a datblygu cynnyrch. Ei brif nod yw sicrhau ein bod yn gweld anghenion sgiliau'r presennol a'r dyfodol, gan warantu'r atebion sgiliau a'r seilwaith sy'n gallu ateb y galw hwnnw.



Nick Payne

Prif Swyddog Ariannol

Bu Nick yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau cyllid, masnachol a gweithredol ar draws y Llywodraeth, heddlu a'r sector preifat, cyn ymuno â CITB ym mis Tachwedd 2022. Fel Prif Swyddog Ariannol, mae ei rôl yn cynnwys rheoli ystadau, cynllunio busnes a pherfformiad, cyllid, a newid a thechnoleg, yn ogystal â chyfrifoldeb dros gynaliadwyedd, parhad busnes a rheoli iechyd a diogelwch. Blaenoriaethau Nick yw creu amgylchedd sy'n galluogi CITB i lwyddo ac i ddangos ein gwerth a'n heffaith i'r diwydiant.

Awdurdoddir taliadau i'r Cadeirydd o dan Atodlen 1(4) o Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982. Nid oes unrhyw aelodau eraill o'r Bwrdd yn cael eu talu. Nodyn 17 – Mae tâl aelodau'r Bwrdd (tudalen 79) yn darparu tâl y Cadeirydd yn ogystal â threuliau aelodau'r Bwrdd. **Cyfanswm y buddion i weithwyr a gafodd yr Ymddiriedolwyr a'r personél rheoli allweddol am eu gwasanaethau i CITB yn ystod y flwyddyn oedd £668,724.**

Taliadau 2022-23 (wedi'u harchwilio)

	CYFLOG A LWFANSAU £'000	BUDDION O FATH ARALL I'R £100 AGOSAF	BONWS £'000	BUDDION PENSIWN £'000	CYFANSWM 2022-23 £'000
Tim Balcon Prif Weithredwr	165-170	1,100	0-5	9.5	180-185
Adrian Beckingham Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi	110-115	100	-	10.0	120-125
Emma Black Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfio	115-120	900	5-10	9.6	130-135
Jackie Ducker Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chynnyrch	125-130	1,200	5-10	10.6	145-150
Nick Payne Prif Swyddog Ariannol	55-60	300	-	3.4	60-65

Dyma fandiâu cyflog blynyddol cyfwerth â blwyddyn lawn (£'000) y rheini a ymunodd yn ystod 2022-23: Nick Payne: 140-145

Taliadau 2021-22 (wedi'u harchwilio)

	CYFLOG A LWFANSAU £'000	BUDDION O FATH ARALL I'R £100 AGOSAF	BONWS £'000	BUDDION PENSIWN £'000	CYFANSWM 2021-22 £'000
Tim Balcon Prif Weithredwr	90-95	400	-	5.4	100-105
Sarah Beale Prif Weithredwr	90-95	2,100	25-30	7.6	130-135
Stephen Radley Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi	115-120	2,400	-	6.7	125-130
Braden Connolly Cyfarwyddwr Cynnyrch a Gwasanaethau i Gwsmeriaid	95-100	800	-	3.4	100-105
Adrian Beckingham Cyfarwyddwr Perfformiad Corfforaethol	105-110	200	-	9.8	115-120
Emma Black Cyfarwyddwr Cyfreithiol, Llywodraethu a Chydymffurfio	105-110	1,800	-	9.1	115-120
Jackie Ducker Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chynnyrch	90-95	100	-	7.1	95-100

Dyma fandiâu cyflog blynyddol cyfwerth â blwyddyn lawn (£'000) y rheini a adawodd yn ystod 2021-22: Sarah Beale: 155-160, Braden Connolly: 115-120. Dyma fandiâu cyflog blynyddol cyfwerth â blwyddyn lawn (£'000) y rheini a ymunodd yn ystod 2021-22: Tim Balcon: 160-165, Jackie Ducker: 120-125.

Yn 2021-22, darparwyd pecyn cymorth all-leoli i Stephen Radley i'w helpu i symud i gam nesaf ei yrfa. Cost y pecyn hwn i CITB oedd £2,940.

Datgeliadau cyflog teg (wedi'u harchwilio)

CYMAREBAU CYFARWYDDWYR SY'N CAEL Y CYFLOG UCHAF O'I GYM HARU Â GWEITHLU'R SEFYDLIAD

Mae'n ofynnol i CITB ddatgelu'r berthynas rhwng tâl ei gyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a thâl chwarter isaf, y canolrif a chwarter uchaf gweithlu'r sefydliad (ar sail cyfwerth ag amser llawn).

	2022-23	2021-22
Cyfanswm tâl y cyfarwyddwr gweithredol sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000)	170-175	160-165
Cyfanswm taliadau canolrifol (£)	41,500	39,463
Cymhareb tâl y cyfarwyddwr gweithredol sy'n ennill y cyflog uchaf i dâl gweithiwr ar y chwarter isaf	4.7: 1	4.7 : 1
Cymhareb tâl y cyfarwyddwr gweithredol sy'n ennill y cyflog uchaf i'r tâl canolrifol	4.2: 1	4.1 : 1
Cymhareb tâl y cyfarwyddwr gweithredol sy'n ennill y cyflog uchaf i dâl gweithiwr ar y chwarter uchaf	3.5: 1	3.4 : 1
£120,001-£130,000	3	2

3.08% oedd y cynnydd canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn cyflog a lwfansau'r cyfarwyddwr a oedd yn cael y cyflog uchaf.

Roedd y cynnydd canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol yn nhâl perfformiad a bonws y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn 100% oherwydd nad oedd bonws na thâl perfformiad wedi'u talu yn 2021-22.

3.48% oedd y cynnydd canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn cyflog cyfartalog a lwfansau pob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn. Roedd y cynnydd yn ganlyniad i'r codiad cyflog blynyddol.

Roedd y cynnydd mewn bonws a thâl perfformiad cyfartalog ar gyfer gweithwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2022-23 yn 9.55%.

Yn 2022-23, ni chafodd unrhyw weithiwr dâl uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (2021-22: Dim).

Sylwer: Yn unol â chanllawiau cyflog teg, nid yw'r tâl a nodir uchod yn cynnwys buddion pensiwn.

GWEITHWYR YN CYNRYCHIOLI POB CHWARTEL CYFLOG

CHWARTEL	2022-23		2021-22	
	CYFANSWM Y TÂL A BUDDION £'000	CYFLOG £'000	CYFANSWM Y TÂL A BUDDION £'000	CYFLOG £'000
Chwartzel isaf	37	34	35	30
Canolrif	42	36	39	34
Chwartzel uchaf	50	44	48	42

Nid yw cyfanswm y tâl a'r buddion o un flwyddyn i'r llall wedi newid rhyw lawer. Mae'r cynnydd bach yn y chwartzel uchaf yn deillio o rhagor o uwch benodiadau yn ystod y flwyddyn. Roedd y tâl cyfwerth ag amser llawn yn amrywio o £18k i £172k (2021-22: £19k i £163k).

DYMA FANYLION ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH STAFF

Cyfrifir y gyfradd absenoldeb fel canran o'r staff hynny sydd ar gael i weithio.

2022-23		2021-22	
DIWRNODAU A GOLLWYD	CYFRADD ABSENOLDEB	DIWRNODAU A GOLLWYD	CYFRADD ABSENOLDEB
6,074	3.67%	6,653	4.11%

Swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y diwrnod:

2022-23

Nifer y swyddi presennol ar 31 Mawrth 2023	2
a oedd:	
am lai na blwyddyn adeg adrodd	2
am rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg adrodd	-

Gweithwyr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac yn ennill o leiaf £245 y diwrnod:

2022-23

Nifer y gweithwyr oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	2
a oedd:	
eu nifer wedi'i bennu fel rhai sydd o fewn cwmpas IR35	2
eu nifer wedi'i bennu fel y tu allan i gwmpas IR35	-

Roedd yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y diwrnod, yn destun deddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu pennu fel bod o fewn cwmpas IR35.



PETER LAUENER

Cadeirydd
24 Ionawr 2024



TIM BALCON

Swyddog Cyfrifyddu
24 Ionawr 2024

ADRAN 8

Cynghorwyr Proffesiynol

BANCWYR

Barclays Bank Plc
17 Market Place
Fakenham
Norfolk
NR21 9BE

ARCHWILWYR

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
London
SW1W 9SP

CYNGHORWR CYFREITHIOL

Tîm Cyfreithiol CITB
Sand Martin House
Bittern Way
Peterborough
PE2 8TY

PRIF SWYDDFA

Gweler Atodiad E (tudalen 96)
am fanylion prif swyddfeydd a
swyddfeydd cofrestredig.

Atodiad A: Cofrestr buddiannau aelodau'r Bwrdd

TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Rhaid i Ymddiriedolwyr Byrddau Cyflogwyr fod yn ymwneud â rheoli gweithgareddau cyflogwr sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu er mwyn i'w penodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn ddilys. Felly, ac eithrio'r ddau aelod annibynnol, byddai gan yr holl Ymddiriedolwyr fuddiannau busnes, fel y rheini sy'n talu'r Lefi neu ddarpar dderbynwyr grant, ar ddyddiad eu penodi, y gellid ystyried eu bod yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelodau'r Bwrdd. Mae'r aelodau canlynol o'r Bwrdd a wasanaethodd am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, wedi datgan buddiannau personol neu fusnes eraill ar ben hynny.

PETER LAUENER

Cadeirydd CITB

Penodwyd Peter Lauener yn Gadeirydd CITB ym mis Mai 2018. Daeth Peter i CITB gyda chyfoeth o brofiad yn y sector addysg a sgiliau, ar ôl bod yn Brif Weithredwr yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) a Phrif Weithredwr dros dro y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (IfATE).

Ynghyd â'i waith ar Fwrdd CITB, mae gan Peter nifer o rolau anweithredol ar hyn o bryd yn y sectorau addysg, sgiliau ac iechyd. Ers mis Mawrth 2020, mae Peter wedi bod yn Gadeirydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, cwmni nid-er-elw sy'n eiddo i'r Llywodraeth ac sydd hefyd yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol (NDPB). Mae'r sefydliad hwn yn gweinyddu benthyciadau a grantiau i fyfyrwyr mewn prifysgolion a cholegau yn y DU.

Mae Peter hefyd yn Gadeirydd Coleg Orchard Hill, sy'n goleg anghenion arbennig annibynnol yn Sutton yn Ne Llundain, gyda safleoedd ar draws Llundain a de ddwyrain Lloegr. Mae'r coleg hwn yn noddi ymddiriedolaeth academaïau anghenion arbennig gyda nifer o academaïau yn yr un ardal.

Yn ogystal â'i fuddiannau yn y sector addysg a sgiliau, mae gan Peter hefyd fuddiant yn y sector iechyd fel Cyfarwyddwr Anweithredol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Plant Sheffield, un o nifer isel o ymddiriedolaethau plant arbenigol yn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau clinigol a chymunedol.

TONY ELLIOTT

Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Grŵp Robertson

Mae gan Tony Elliott dros 30 mlynedd o brofiad ym meysydd talent, pobl a dysgu, ac mae'n rhan o'r tîm gweithredol yn Robertson, un o gwmnïau gwasanaethau adeiladu a seilwaith preifat mwyaf y DU. Mae Tony'n teimlo'n gryf am ddatblygu pobl a'r thyfu talent fewnol, denu talent newydd, a sicrhau bod sgiliau'n cael eu gwella a'u bod yn addas ar gyfer y dyfodol ym maes adeiladu.

STEVE FOX (DAETH EI GYFNOD I BEN YM MIS MAI 2022)

Penodwyd Steve yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn Barhale Ltd ar 29 Gorffennaf 2020, ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau cynghori i bartion eraill. Roedd Steve yn Brif Weithredwr BAM Nuttall rhwng 2010 a mis Mehefin 2020. Bu'n gweithio i'r cwmni ers 1989. Mae Steve yn Beiriannydd Siartredig ac yn Gymrawd o Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Dyfarnwyd CBE iddo yn 2015 am ei wasanaethau i'r diwydiant adeiladu. Mae Steve yn gefnogwr cryf

o brentisiaethau crefft a thechnegol fel llwybrau i'r diwydiant, ac mae'n aelod o Fwrdd Merched i Wyddoniaeth a Pheirianeg (WISE). Mae hyn yn dilyn ymrwymiad Steve i hybu merched i weithio ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM).

DIANA GARNHAM

Mae Diana yn Gadeirydd Skills East Sussex, yn aelod o Banel Cynghori Sgiliau South East Local Enterprise Partnership (SELEP), yn Aelod o Gyngor Ysgol Christ's Hospital, yn Llywydd Cymdeithas Alumni Coleg y Brenin Llundain, yn Gadeirydd Grŵp Cynghori Alumni Coleg y Brenin Llundain, ac yn Gyfarwyddwr Tavern Quay RTM Company. Cyn hynny, roedd yn Brif Weithredwr y Cyngor Gwyddoniaeth ac yn Llywodraethwr Grŵp Coleg Dwyrain Sussex. Mae ganddi ddiddordeb parhaus yng nghanlyniadau cymdeithasol gwyddoniaeth, mewn llywodraethu a strategaeth dda, ac mewn galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial, yn enwedig yn yr amgylchedd STEM.

YVONNE KELLY (DAETH EI CHYFNOD I BEN YM MIS CHWEFROD 2023)

Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol, Coleg Barking a Dagenham

Yvonne Kelly yw Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol Coleg Barking a Dagenham, coleg arobryn sy'n darparu hyfforddiant galwedigaethol, technegol a phroffesiynol i dros 7,000 o fyfyrwyr bob blwyddyn. Mae Coleg Barking a Dagenham yn darparu cymwysterau canolradd, uwch a lefel uwch mewn Adeiladu, gan gynnwys prentisiaethau a Lefelau T. Mae'r Coleg yn hyfforddi nifer o brentisiaid CITB. Y Coleg yw partner arweiniol Athrofa Technoleg Dwyrain Llundain, un o'r 12 cyntaf yn y wlad, ac ymunodd â Rhaglen Canolfan Ragoriaeth WorldSkills UK yn 2020. Mae Yvonne yn chwarae rôl weithredol ar amrywiol Fyrddau, ac mae'n aelod o Bwyllgor Addysg y Gymdeithas Frenhinol, Cynghrair Coleg y Pedair Gwlad ac yn gynghorydd ar Grŵp Cyfeirio AB Pearson.

KEVIN MCLOUGHLIN

Rheolwr Gyfarwyddwr, McLoughlin Group Holdings Ltd

Kevin McLoughlin MBE yw sylfaenydd a Rheolwr Gyfarwyddwr SME McLoughlin Group Holdings Ltd yn Llundain. Mae'r cwmni'n gefnogwr brwd o brentisiaethau. Mae'r cwmni'n cyflogi sawl tiwtor sy'n helpu i hyfforddi prentisiaid mewn peintio ac addurno, ac ers 2012 mae wedi cynnig rhaglen bedair wythnos cyn cyflogi i bobl o bob oed. Cafodd Kevin MBE yn 2014 am ei wasanaethau i sgiliau a phrentisiaethau, ac mae'n Gymrawd o'r Sefydliad Adeiladu Siartredig (CIOB). Mae Kevin hefyd yn Aelod o GMB, Liveryman of Painters and Stainers, Freeman of the City of London, Aelod o Ffederasiwn Grŵp Hyfforddi'r Meistr Adeiladwyr, Aelod o Grŵp Hyfforddiant Adeiladu Rhanbarthol Llundain, Grŵp Llywio FIR, Grŵp Cyflawni Sgiliau a Strategaeth Islington, Grŵp Gweithredu Cyflog Byw Islington ac aelod o Gymuned Alumnus ar gyfer y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol. Mae Kevin hefyd yn Gyfarwyddwr Cwmni Buddiannau Cymunedol McLoughlin Decorating Schools, ac yn Bartner i Maxine and Kevin Property Business Partnership.

HOLLY PRICE

Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd y Grŵp, Grŵp Keltbray

Holly Price oedd Cyfarwyddwr Hyfforddi a Datblygu Grŵp Keltbray rhwng 2007 a 2022, gan chwarae rhan hollbwysig →

Atodiad A: Cofrestr buddiannau aelodau'r Bwrdd

→ mewn creu twf cynaliadwy a sylweddol drwy gael y bobl iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Dechreuodd Holly ei gyrfa yn y diwydiant dymchwel yn ddim ond 17 oed, gan hyfforddi i fod yn beiriannydd, ac aeth ymlaen i fod yr unig beiriannydd ffrwydron benywaidd yn Ewrop yn y sector. Drwy gydol ei chyfnod yn Keltbray, bu Holly hefyd yn arwain y gwaith o ddarparu Gwerth Cymdeithasol a chwaraeodd ran weithredol mewn partneriaethau diwydiant gyda chymdeithasau masnach a sefydliadau addysgol eraill yn hybu sgiliau yn y sector adeiladu.

Yn gynnar yn 2022, cafodd Holly ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cynaliadwyedd y Grŵp ac mae ei dull arwain ar y cyd wedi ei rhoi yn y safle gorau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu targedau cyhoeddedig Keltbray ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Mae Holly'n hybu'r angen i ehangu'r gronfa dalent drwy groesawu amrywiaeth a denu newydd-ddyfodiaid o bob cefndir i'r diwydiant, ac mae hi'n ymgyrchu'n ddiflino dros wella safonau'r diwydiant yn barhaus.

Mae Holly hefyd yn Is-lywydd Anrhydeddus Oes y Ffederasiwn Contractwyr Dymchwel Cenedlaethol, sydd â rheolaeth ariannol dros y Grŵp Hyfforddiant Dymchwel Cenedlaethol, ac sy'n elwa o gyllid CITB. Mae hi hefyd yn un o Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu, sy'n cael cyllid gan CITB i helpu pobl ifanc ddfreintiedig i gael swyddi adeiladu drwy hyfforddiant a mentora.

SOPHIE SEDDON

Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant, Novus Property Solutions

Mae Sophie Seddon wedi gweithio ym maes adeiladu am dros 10 mlynedd, ar ôl ymuno â'i busnes teuluol ar ôl graddio mewn Rheoli Busnes. Gan ddechrau ar ei gyrfa yn Seddon Property Services, roedd Sophie'n rhan allweddol o'r gwaith o ail-frandio'r cwmni i Novus. Ers hynny, fe'i penodwyd yn Bennaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â Chleientiaid yn 2018, cyn symud i'w rôl ddiweddaraf yn 2020. Mae Sophie yn deall pwysigrwydd meithrin talent ifanc, gan fod Novus yn cynnig nifer o lwybrau i'r diwydiant adeiladu i bobl ifanc. Mae hi hefyd yn frwd dros ddefnyddio technoleg newydd, gwella materion cynaliadwyedd, a hybu cynhwysiant yn y diwydiant.

Mae Sophie hefyd yn gyfrandaliwr yn JSSH Ltd, daliadau grŵp Novus Property Solutions Ltd ac yn Gyfarwyddwr ac yn gyfrandaliwr yn Hall Estates Ltd, cwmni datblygu eiddo.

LOUISA FINLAY (PENODWYD YM MIS GORFFENNAF 2022)

Prif Swyddog Pobl, Kier Construction Ltd

Penodwyd Louisa yn Brif Swyddog Pobl yng Ngrŵp Kier ym mis Mawrth 2023, ar ôl dros 30 mlynedd o wasanaeth parhaus gyda'r busnes. Yn y rôl hon, mae Louisa yn gyfrifol am Adnoddau Dynol, cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol, iechyd, diogelwch a lles yn ogystal â rheoli asedau a sicrwydd busnes.

Cyn dod yn Brif Swyddog Pobl, bu Louisa yn gweithio mewn amrywiol rolau cenedlaethol, rhanbarthol a sector ar draws ei fusnes Adeiladu, gan gynnwys fel Rheolwr Gyfarwyddwr

busnes y de ac yn fwyaf diweddar fel Rheolwr Gyfarwyddwr y swyddogaeth cleientiaid a marchnadoedd.

Dechreuodd Louisa ei gyrfa fel peiriannydd dan hyfforddiant ar radd ryngosod. Mae hi'n frwd dros ddarparu'r genhedlaeth nesaf o seilwaith ledled y DU ac mae hi wedi ymrwmo i sefydlu diwylliant yn Kier lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn, yn cael eu cefnogi ac yn gallu ffynnu.

Mae Louisa yn aelod o'r Sefydliad Adeiladu Siartredig a Chylch Mentora'r Diwydiant Adeiladu ac Eiddo.

OWAIN JONES (PENODWYD YM MIS GORFFENNAF 2022)

Cyfarwyddwr, Richard Jones (Betws) Ltd

Mae gan Owain Jones dros 30 mlynedd o brofiad yn y diwydiant adeiladu ar ôl ymuno â busnes BBaCh teuluol ar ôl graddio i ddechrau mewn Busnes a Chyllid, ac yn ddiweddarach mewn Rheoli Adeiladu. Â'i bencadlys yn y De-orllewin, cafodd TRJ ei gydnabod yn 2015 fel Cyflogwr Prentisiaid y Flwyddyn CITB ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr.

Mae Owain yn ymddiriedolwr sefydlol ac yn Gadeirydd Cyfle Building Skills, elusen sy'n gweithredu'r Cynllun Rhannu Prentisiaeth Adeiladu mwyaf yn y DU. Cydnabuwyd cyflawniadau Cyfle gyda dwy Wobr y Frenhines, am arloesi ac am hyrwyddo cyfleoedd mewn perthynas â symudedd cymdeithasol. Mae Owain wedi bod yn Gyfarwyddwr Gweithredol Carmarthenshire Construction Training Association Ltd ers ei sefydlu ac mae'n frwd dros uwchsgilio'r gweithlu lleol.

Mae Owain yn un o Ymddiriedolwyr Sefydliad Jac Lewis, elusen iechyd meddwl a lles. Yn siaradwr Cymraeg rhugl, mae Owain yn gefnogwr brwd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

MICHAEL GREEN (PENODWYD YM MIS GORFFENNAF 2022)

Rheolwr Gyfarwyddwr RED Systems Ltd

Mae Michael Green wedi codi drwy'r rhengoedd, o'i leoliad Technegwyr Cynllun Hyfforddi Ieuenctid (YTS) cyntaf gyda'r CITB gydag Alfred McAlpine yn Bircham Newton i redeg ei gwmni ei hun bellach, sef RED Systems, cwmni gwydr a waliau llen sy'n ehangu'n gyflym.

Wedi'i sefydlu yn 2003, mae'r cwmni wedi tyfu i fod yn fusnes â throsiant gwerth dros £14 miliwn ac erbyn hyn mae'n un o gontractwyr gwydr arbenigol mwyaf uchel ei barch y diwydiant.

Mae'n eiriolwr brwd dros hyfforddiant, datblygiad a datblygiad proffesiynol, gyda dros 60% o'i dîm ei hun yn astudio ar gyfer rhyw fath o gymhwyster, ac mae wedi ymrwmo i feithrin sgiliau a denu talent newydd i'r diwydiant.

Nawr, gyda dros 33 mlynedd o brofiad yn y diwydiant, ac ar ôl cwblhau'r cam mwyaf heriol yn ddiweddar ar ei daith addysgol ei hun, MBA, mae Michael bellach yn aelod o'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig.

Atodiad B: Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau

2022-23	AELOD	PRESENOLDEB	AELOD	PRESENOLDEB	CYFANSWM
Bwrdd	Peter Lauener (Cadeirydd)	5/6	Holly Price	4/6	45/54
	Tony Elliott	6/6	Sophie Seddon	5/6	
	Steve Fox (daeth ei gyfnod i ben ar 31 Mai 2022)	0/1	Owain Jones (ymunodd ar 25 Gorffennaf 2022)	4/4	
	Diana Garnham	6/6	Michael Green (ymunodd ar 25 Gorffennaf 2022)	4/4	
	Yvonne Kelly (daeth ei chyfnod i ben ar 18 Chwefror 2023)	4/5	Louisa Finlay (ymunodd ar 25 Gorffennaf 2022)	2/4	
	Kevin McLoughlin	5/6	-	-	
Pwyllgor Archwilio a Risg	Diana Garnham (Cadeirydd)	5/5	Sophie Seddon	3/5	17/21
	Lee Jones	4/5	Louisa Finlay (penodwyd ym mis Gorffennaf 2022)	1/1	
	Richard Plumb	4/5	-	-	
Pwyllgor Enwebu, Penodiadau a Thaliadau	Tony Elliott (Cadeirydd)	5/5	Sophie Seddon	5/5	13/15
	Diana Garnham	3/5	-	-	
Pwyllgor Ariannu'r Diwydiant	Steve Fox (Cadeirydd) daeth ei gyfnod i ben ar 31 Mai 2022)	0/0	Kacey O'Driscoll	3/4	22/27
	Holly Price (Cadeirydd o 1 Mehefin 2022 ymlaen)	4/4	Hannah O'Sullivan	3/4	
	Steve Drury	4/4	Rupert Perkins	3/4	
	Julia Evans (daeth ei chyfnod i ben ar 31 Rhagfyr 2022)	2/3	Claire Smithson	3/4	
Pwyllgor Strategaeth Lefi	Diana Garnham (Cadeirydd)	4/4	Vikki Skene	3/4	26/32
	Gareth Davies	3/4	Rob Tansey	2/4	
	Andrew Harvey	4/4	Annette Jones (ymunodd ar 15 Mawrth 2023)	1/1	
	Yvonne Kelly (daeth ei chyfnod i ben ar 18 Chwefror 2023)	2/3	Ken Miller (ymunodd ar 15 Mawrth 2023)	1/1	
	Alison Duckles (ymddiswyddodd ar 21 Gorffennaf 2022)	1/1	James Butcher (ymunodd ar 15 Mawrth 2023)	1/1	
	Neil Rogers	3/4	Steve Anderson	1/1	
Cyngor Cenedl Cymru	Leigh Hughes (Cadeirydd)	4/4	Owain Jones (Dirprwy Gadeirydd)	3/4	25/32
	Gareth Davies	4/4	Paul Tedder	4/4	
	Terry Edwards	3/4	Monique Jones	2/4	
	Andrea Green	3/4	Andrew Dobbs	2/4	
Cyngor Cenedl Lloegr	Sharon Llewellyn (Cadeirydd)	4/4	James Flannery	1/4	27/36
	Kevin McLoughlin (Dirprwy Gadeirydd)	4/4	Alison Duckles (daeth ei chyfnod i ben ar 31 Rhagfyr 2022)	1/1	
	Bola Abisogun	3/4	Jeremy Musselwhite (ymddiswyddodd ar 26 Medi 2022)	0/2	
	Karen Brookes	3/4	Dave Sargent	2/4	
	Chris Carr	3/4	Maria Seabright	3/4	
	Ian Dickerson	3/4	Annette Jones (ymunodd ar 1 Ionawr 2023)	1/1	
Cyngor Cenedl Yr Alban	Angela Forbes (Cadeirydd)	4/4	Karen McGahan	2/4	27/32
	Tony Elliott (Dirprwy Gadeirydd)	4/4	Jennifer Phin (ymddiswyddodd ar 24 Mawrth 2023)	3/4	
	Craig Bruce	4/4	Kevin Urquhart	4/4	
	Marion Forbes	3/3	Ken Millar (ymunodd ar 1 Ionawr 2023)	1/1	
	Susan Jackson (ymddiswyddodd ar 16 Mawrth 2023)	2/4	-	-	
Coleg Adeiladu Cenedlaethol a Phrentisiaethau	Peter Lauener (Cadeirydd)	1/1	Tony Elliott	1/1	3/3
	Michael Green (Is-gadeirydd)	1/1	-	-	

Atodiad C: Aelodaeth o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau

Enw cyntaf	Cyfenw	Cyflogwr	Bwrdd CITB	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau	Pwyllgor Ariannu'r Diwydiant	Pwyllgor Strategaeth y Lefi	Pwyllgor y Coleg Adeiladu Cenedlaethol a Phrentisiaethau	Cyngor Cenedl Cymru	Cyngor Cenedl Lloegr	Cyngor Cenedl yr Alban
Bola	Abisogun	DiverseCity Surveyors								●	
Steve	Anderson	Construction Skills People					Penodwyd ym mis Mawrth 2023				
Karen	Brookes	Syr Robert McAlpine								●	
Craig	Bruce	Pert Bruce Construction									●
James	Butcher	Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr					Penodwyd ym mis Mawrth 2023				
Chris	Carr	Carr and Carr (Builders) Ltd								●	
Gareth	Davies	Knox and Wells Ltd					●		●		
Ian	Dickerson	Kier Group Plc								●	
Andrew	Dobbs	Willmott Dizon Construction Ltd							●		
Steve	Drury	Rooff Limited and Rooff Residential Ltd				●					
Terry	Edwards	John Weaver Construction							●		
Tony	Elliott	Grŵp Robertson	●		Cadeirydd			Penodwyd ym mis Mawrth 2023			Dirprwy Gadeirydd
Julia	Evans	BSRIA				Daeth ei chyfnod i ben ym mis Rhagfyr 2022					
Louisa	Finlay	Kier Group Plc	Penodwyd ym mis Gorffennaf 2022	Penodwyd ym mis Rhagfyr 2022							
Angela	Forbes	BuildForce									Cadeirydd
Marion	Forbes	Mactaggart and Mickel Homes Ltd									●
Steve	Fox	BAM Nuttall	Daeth ei gyfnod i ben ym mis Mai 31 2022			Daeth ei gyfnod i ben ym mis Mai 31 2022					
Diana	Garnham	Ymgynghorydd	●	Cadeirydd	●		Cadeirydd				
Andrea	Green	Alstom							●		
Michael	Green	RED Systems Ltd	Penodwyd ym mis Gorffennaf 2022					Penodwyd ym mis Mawrth 2023			
Andrew	Harvey	Harvey Shopfitters Ltd					●				
Leigh	Hughes	Bouygues UK							Cadeirydd		
Susan	Jackson	Campion Homes Ltd									Ymddiswyddodd ym mis Mawrth 2023
Annette	Jones	Foundation Developments Ltd					Penodwyd ym mis Mawrth 2023			Penodwyd ym mis Ionawr 2023	
Lee	Jones	Keir Group Plc		●							
Monique	Jone	J Randall Roofing Contractors							●		

Atodiad C: Aelodaeth o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau

Enw cyntaf	Cyfenw	Cyflogwr	Bwrdd CITB	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Enwebiadau, Penodiadau a Chyflogau	Pwyllgor Ariannu'r Diwydiant	Pwyllgor Strategaeth y Lefi	Pwyllgor y Coleg Adeiladu Cenedlaethol a Phrentisiaethau	Cyngor Cenedl Cymru	Cyngor Cenedl Lloegr	Cyngor Cenedl yr Alban
Owain	Jones	T Richard Jones (Betws) Ltd	Penodwyd ym mis Gorffennaf 2022						Dirprwy Gadeirydd		
Yvonne	Kelly	Coleg Barking a Dagenham	Daeth ei chyfnod i ben ym mis Chwefror 2023				Daeth ei chyfnod i ben ym mis Chwefror 2023				
Alison	Lamplough	Laing O'Rourke					Ymddiswyddodd ym mis Gorffennaf 2022			Daeth ei chyfnod i ben ym mis Rhagfyr 2022	
Peter	Lauener	Cadeirydd CITB	Chair					Cadeirydd Penodwyd ym mis Mawrth 2023			
Sharon	Llewellyn	JPR Roofing and Flooring Ltd								Cadeirydd	
Karen	McGahan	William Waugh & Sons (Builders) Ltd									●
Kevin	McLoughlin	Grŵp McLoughlin	●							Dirprwy Gadeirydd	
Ken	Millar	Grŵp Springfield					Penodwyd ym mis Mawrth 2023				Penodwyd ym mis Ionawr 2023
Jeremy	Musselwhite	Jem Musselwhite Ltd								Ymddiswyddodd ym mis Medi 2022	
Kacey	O'Driscoll	Grŵp Danny Sullivan				●					
Hannah	O'Sullivan	VolkerWessels				●					
Rupert	Perkins	John Perkins Construction Ltd				●					
Jennifer	Phin	A.C Whyte & Co Ltd									Ymddiswyddodd ym mis Mawrth 2023
Richard	Plumb	Ordnance Survey Ltd		●							
Holly	Price	Grŵp Keltbray	●				Cadeirydd				
Neil	Rogers	Ffederasiwn Addurnwyr yr Alban					●				
Dave	Sargent	RBF Construction Training Academy Ltd								●	
Maria	Seabright	Greenade Construction Ltd								●	
Sophie	Seddon	Novus Property Solutions	●	●	●						
Vikki	Skene	Galliford Try					●				
Clare	Smithson	Western Homes Plc				●					
Rob	Tansey	Barratt Developments Plc					●				
Paul	Tedder	Atlantic Dwellings Ltd						●			
Kevin	Urquhart	Barrat & David Wilson Homes									●

Mae'r tabl hwn yn dangos yr holl aelodaeth yn ystod y cyfnod 12 mis rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Atodiad D: Sefydliadau Rhagnodedig

Yn ystod 2022-23, cadwodd CITB gyswllt agos â'r Sefydliadau Rhagnodedig canlynol:

- Ffederasiwn Gwaith Coed Prydain
- Build UK
- Cymdeithas y Contractwyr Peirianeg Sifil
- Cymdeithas Llogi Peiriannau Adeiladu
- Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
- Finishes and Interiors Sector
- Cymdeithas Llogi Ewrop
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Cymdeithas Genedlaethol Dodrefnwyr Siopau
- Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr
- Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Dymchwel
- Ffederasiwn Adeiladu'r Alban
- Ffederasiwn Addurnwyr yr Alban
- Cymdeithas Perchnogion Peiriannau'r Alban.

Atodiad E: Lleoliad prif swyddfeydd CITB

Y BRIF SWYDDFA A'R SWYDDFA GOFRESTREDIG

Sand Martin House
Bittern Way
Peterborough
PE2 8TY

Ffôn: 0300 456 7577

CYMRU

Swyddfa Cymru
Tŷ'r Cwmnïau
Crown Way
Y Maendy
Caerdydd
CF14 3UZ

Ffôn: 0303 123 4500

YR ALBAN

Swyddfa'r Alban
4 Fountain Avenue
Inchinnan Business Park
Inchinnan
Renfrewshire
PA4 9RQ

Ffôn: 0344 994 8800

Atodiad F: Geirfa

TALFYRIAD	SEFYDLIAD
CCS	Gwasanaeth Masnachol y Goron
CIS	Cynllun y Diwydiant Adeiladu
CIOB	Sefydliad Siartredig Adeiladu
CJRS	Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws
CPCS	Cynllun Cymhwysedd Peiriannau Adeiladu
CPI	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
CSCS	Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu
CSF	Y Gronfa Sgiliau Adeiladu
DfE	Yr Adran Addysg
ESFA	Yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau
ICO	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
IfATE	Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol
ISAs	Safonau Rhyngwladol ar Archwilio
ITB	Bwrdd Hyfforddi Diwydiannol
KPI	Dangosydd perfformiad allweddol

TALFYRIAD	SEFYDLIAD
LSC	Pwyllgor Strategaeth y Lefi
NAO	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
NCC	Coleg Adeiladu Cenedlaethol
NDPB	Corff cyhoeddus anadrannol
NEST	Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid
NSAC	Canolfan Genedlaethol Achrededig Arbenigol
OCPA	Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
RPI	Mynegai Prisiau Manwerthu
SDS	Skills Development Scotland
SEISS	Y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig
SME	Busnes bach a chanolig
SORP	Datganiad o'r Arfer a Argymhellir
STEM	Gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg
WG	Llywodraeth Cymru

